

Astudiaeth dichonolrwydd o ran menter ‘siopau gwib’ yng nghefn gwlad Sir Gaerfyrddin

Astudiaeth dichonolrwydd o ran menter 'siopau gwib' yng nghefn gwlad Sir Gaerfyrddin

Cwblhawyd y gwaith ymchwil gan Canta, gyda chymorth gan Perspectif.

Comisiynwyd yr ymchwil gan Dîm Cyllid Allanol Cyngor Sir Gaerfyrddin, ar ran y Grŵp Cefn Gwlad, y bartneriaeth sydd â chyfrifoldeb dros reoli'r rhaglen LEADER yn Sir Gaerfyrddin.

Mae'r prosiect ymchwil hwn wedi cael ei ariannu gan Gynllun Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020 a ariennir gan Lywodraeth Cymru a Chronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig.

Research into the feasibility of a 'pop up shop' initiative in rural Carmarthenshire

Research carried out by Canta, with support from Perspectif. The research was commissioned by Carmarthenshire County Council's External Funding Team, on behalf of Grwp Cefn Gwlad, the partnership with responsibility for the management of the LEADER programme in Carmarthenshire. This research project has been funded through the Rural Development Plan for Wales 2014-2020 which is funded by the Welsh Government and the European Agricultural Fund for Rural Development.



Mae Canta a Perspectif yn rhan o Antur Teifi

Cynnwys

Crynodeb Gweithredol	1
1. Cyflwyniad	2
2. Y Cefndir	3
2.1. Diffiniad o Siop Wib	3
2.2. Pam mae safleoedd siopau gwib wedi ymddangos ar y stryd fawr	3
2.3. Y stryd fawr a siopau gwag	3
2.4. Cyfraniad economaidd siopau gwib i'r economi	3
3. Methodoleg	4
3.1. Rhan 1	4
3.1.1. Ymchwil desg ar-lein ac ymweliadau	4
3.2. Rhan 2 – Ymgynghori â rhanddeiliaid	5
3.3. Rhan 3 – Y model sy'n cael ei ffafrio	6
3.4. Priodoldeb, cwmpas ac effeithiolrwydd yr ymgynghori	6
4. CANFYDDIADAU – Ymchwil Desg	7
4.1. Lleoliad	7
4.2. Landlordiaid	7
4.3. Gweithio mewn Partneriaeth	8
4.4. Trethi	8
4.5. Arian Craidd	9
4.5.1. Abergwaun	9
4.5.2. Penzance	9
4.5.3. Bae Colwyn	9
4.5.4. Selkirk	9
4.6. Costau Rheoli a Rhedeg	10
4.6.1. Abergwaun	10
4.6.2. Penzance	11
4.6.3. Bae Colwyn	11
4.6.4. Selkirk	11
4.7. Enghreifftiau o Weithgareddau	12
4.7.1. Abergwaun	12
4.7.2. Penzance	12
4.7.3. Bae Colwyn	12
4.7.4. Selkirk	12

4.8. Ymgyrchoedd Siopau Gwib ac Elusennau	13
4.8.1. Heddlu Gogledd Cymru – Bae Colwyn.....	13
4.8.2. Y Gymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol	13
4.8.3. Wythnos Dementia	13
4.9. Enghreifftiau eraill o siopau gwib manwerthu	13
4.9.1. Lan Llofft Llanbedr Pont Steffan	13
4.9.2. John Lewis	13
4.9.3. Temple Cycles.....	14
4.9.4. Hangfire Smokehouse	14
4.9.5. ‘Airbnb ar gyfer Siopau Gwib.....	14
4.10. Profiadau Cyffredin	14
4.10.1. Amcanion	14
4.10.2. Ffactorau Llwyddiant.....	15
4.10.3. Ffactorau Risg.....	15
4.10.4. Cynaliadwyedd a pherchenogaeth	15
4.10.5. Effaith tymor hir	15
5. Canfyddiadau – Agweddau tuag at gynllun siopau gwib posibl yn Sir Gaerfyrddin wledig	16
5.1. Barn ymwelwyr â'r trefi	17
5.2. Barn busnesau	18
6. Canfyddiadau – Y model sy'n cael ei ffafrio ar gyfer cynllun siopau gwib	19
6.1. Sgôr gymharol yr opsiynau yng Nghynllun Siopau Gwib Sir Gaerfyrddin Wledig	20
6.2. Matrics sgorio	21
6.3 Incwm a gwariant (amodol) – Opsiwn A	21
7. Casgliadau	23
7.1. Gwersi o gynlluniau eraill	23
7.2. Profiad Sir Gaerfyrddin	23
7.2.1. Amrywiaeth o siopau	23
7.2.2. Materion eraill	24
7.2.3. Brandiau / ffocws trefi	24
7.3. Opsiynau posibl o ran datblygu cynllun siopau gwib	24
8. Y camau nesaf	25
9. Cydnabyddiaeth	25
Atodiad 1 – canfyddiadau llawn yr ymchwil ar ddefnyddwyr	26
Atodiad 2 – canfyddiadau llawn o'r arolwg busnes	44



Crynodeb Gweithredol

Diffinir 'pop-up shop' fel siop neu stondin dros dro neu brofiad brand a ddefnyddir i werthu nwyddau am gyfnod cyfyngedig o amser. Mae'n cynnwys popeth o stondinau marchnad a gwerthwyr bwyd-stryd i siopau ffasiwn, orielau, caffis a bariau.

Gwelir siopau 'pop-up' yn fwy rheolaidd fel nodweddion ar y stryd fawr yn y DU wrth i bwysau o du siopa ar-lein, canolfannau siopa y tu allan i drefi a chau canghennau banc gael effaith ar nifer y siopwyr yng nghanol trefi. Mae landlordiaid felly wedi bod yn chwilio am ffyrdd eraill o lenwi eu safleoedd gwag.

Mae lefel y siopau gwag mewn trefi wedi bod yn tyfu'n gyson dros y degawd diwethaf, er bod data diweddar yn awgrymu gostyngiad yn y gyfran o safleoedd gwag ar y stryd fawr. Y lefel ar gyfer Cymru yn 2015 oedd 15.1%. Rydym yn amcangyfrif ffigur tebyg i Sir Gaerfyrddin. Gall y rheswm dros y lleihad hwn, yn rhannol, fod oherwydd bod y lleoedd hynny yn cael eu defnyddio mewn ffyrdd amgen.

Mae'r adroddiad yn tynnu ar ymchwil eilradd (desg) i ddatblygiad safleoedd 'pop-up'pop mewn trefi a dinasoedd yn y DU ac ymchwil cynradd ymhlith siopwyr a busnesau mewn chwech o drefi gwledig Sir Gaerfyrddin a'r agweddau tuag at siopau 'pop-up' fel potensial i ateb yr heriau a gyflwynir gan adeiladau gwag yn y trefi hynny.

Mae siopau 'pop-up' yn llwyddo ar sail fasnachol wedi eu gweinyddu gan fentrau masnachol fel 'Appear-Here' lle mae rhifau uchel o gerddwyr (siopwyr yng nghanol trefi a dinasoedd).

Mae rheoli siopau 'pop-up' mewn trefi gwledig, lle mae niferoedd y siopwyr yn gyffredinol yn is, yn fwy heriol ac yn aml wedi dibynnu ar gyllid allanol i lwyddo.

Mae brwdfrydedd clir ymhlith siopwyr rheolaidd, ymwelwyr a busnesau yn y chwe thref o dan sylw i'r cysyniad o siopau 'pop-up'.

Nodwyd nifer o faterion eraill yn ymwneud â'u trefi gan randdeiliaid yn y chwe thref pe baent yn cael eu datrys y byddent yn denu mwy o bobl i'r dref neu arwain at bobl yn ymweld â'r dref yn fwy rheolaidd. Mae'r rhain yn cynnwys materion sy'n ymwneud ag amrywiaeth y siopau, hyrwyddo, yr angen am fwy o ddigwyddiadau a gweithgareddau a materion yn ymwneud â pharcio.

Tra bod galw a brwdfrydedd clir yn bodoli ar gyfer y cysyniad o fenter siopau 'pop-up' yn y trefi, mae'r her i allu lansio menter o'r fath â'r gallu i lwyddo i gynnal ei hun yn y tymor hir yn un arwyddocaol ac yn un a fyddai angen buddsoddiad allanol.

Mae pob un o'r trefi a oedd yn destun y gwaith ymchwil hwn â'r cyfle i ddatblygu, tyfu a ffynnu. I gyrraedd eu potensial bydd angen cydweithio, penderfynu a chanolbwyntio ar gyfeiriad y cytunwyd arno ac ymrwymiad i gyflawni'r strategaeth.

Gall fenter siopau 'pop-up' fod yn rhan o'r ateb ar gyfer y trefi sydd yn edrych i ganolbwyntio ar wella eu cynnig i'w preswylwyr ac ymwelwyr, ond i lwyddo, bydd angen i bawb i ymrwymo i'r strategaeth a'i chyflwyno.

1. Cyflwyniad

Cafodd yr adroddiad hwn ei gomisiynu gan Dîm Cyllid Allanol Cyngor Sir Caerfyrddin, ar ran y Grŵp Cefn Gwlad, sef y bartneriaeth sy'n gyfrifol am rheoli rhaglen LEADER yn Sir Gaerfyrddin.

Mae'r prosiect ymchwil yn cael ei ariannu drwy Gynllun Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020 sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru a Chronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig.

Cyflawnwyd yr ymchwil ar gyfer yr adroddiad hwn gan Canta – Cyfathrebu a Marchnata, ac fe'i casglwyd ynghyd rhwng mis Mai a mis Hydref 2016.

Cafodd y broses ymgynghori ei chynllunio fel ei bod o help i'r Bartneriaeth wrth iddi geisio canfod modelau posibl o 'Siopau Gwib' y byddai modd eu haddasu ar gyfer Sir Gaerfyrddin wledig.

Mae'r trefi marchnad gwledig i'w hystyried fel rhan o'r ymchwil yn cynnwys y canlynol:



Caerfyrddin



Hendy-gwyn



Sanclêr



Llandeilo



Castellnewydd Emlyn



Llanymdyfri

Cyflawnwyd yr ymchwil mewn 3 rhan:

- Rhan 1 Gwneud gwaith ymchwil a nodi modelau posibl o 'siopau gwib' y byddai modd eu haddasu ar gyfer Sir Gaerfyrddin wledig.
- Rhan 2 Ymchwilio i ddichonolrwydd datblygu cynllun 'siopau gwib' ar draws trefi marchnad Sir Gaerfyrddin.
- Rhan 3 Dylunio a datblygu cynllun busnes er mwyn symud y model sy'n cael ei ffafrio ymlaen, a hynny'n cynnwys syniad go dda o'r costau gweithredu.



2. Y Cefndir

2.1. Diffiniad o Siop Wib

Siop neu stondin dros dro neu brofiad brand a ddefnyddir i werthu nwyddau am gyfnod cyfyngedig o amser. Mae'n cynnwys popeth o stondinau marchnad a gwerthwyr bwyd-stryd i siopau ffasiwn, orielau, caffis a bariau.

2.2. Pam mae safleoedd siopau gwib wedi ymddangos ar y stryd fawr

Mae nifer o ffactorau wedi arwain at sefyllfa lle mae siopau gwib i'w gweld fel nodwedd o'r stryd fawr yn y Deyrnas Unedig. Mae'r twf mewn manwerthu ar-lein yn un ffactor – yn 2007, dim ond 3% o'r holl werthiant manwerthu oedd ar-lein, ond erbyn 2016 roedd y ffigur hwnnw wedi codi i 12.5% (amcangyfrif). Mae'n debygol fod effaith datblygiadau manwerthu ar gyrion trefi wedi bod yn fwy arwyddocaol o ran yr effaith ar fanwerthu yng nghanol trefi dros yr un cyfnod. Effeithiwyd yn arbennig ar siopau manwerthu annibynnol. Mae llawer o astudiaethau wedi dangos bod 'clôn drefi' wedi dod yn ffenomenon cyfarwydd – trefi sy'n cynnig yr un ddarpariaeth fanwerthu, yn cynnwys nifer cynyddol o siopau elusen a siopau yn y sector Cwrw, Gamblo ac Arian.

Yn adroddiad y Local Data Company, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2017, nodir Llandeilo fel un o'r 10 tref uchaf yng Nghymru sydd â'r gyfran uchaf o fanwerthwyr annibynnol. Awgrymai fod Llandeilo, ynghyd â nifer o drefi tebyg yng Nghymru, yn llwyddo i ddenu pobl ar sail yr amrywiaeth y mae'n ei chynnig. Caiff hyn ei ystyried ymhellach yn ddiweddarach yn yr adroddiad.

2.3. Y stryd fawr a siopau gwag

Mae ffigurau gan y Local Data Company ym mis Medi 2016 yn dangos mai Cymru sydd â'r nifer mwyaf o siopau gwag yn y Deyrnas Unedig, ar 15.1%. Mae ffigurau dros dro ar gyfer 2016 yn awgrymu bod y ffigur hwn wedi gostwng i 14.6%. Er nad oes data penodol yn cael ei gasglu am Sir Gaerfyrddin, mae data am dref Caerfyrddin ei hun gan y Local Data Company, ynghyd â thystiolaeth anecdotaidd leol o drefi eraill, yn awgrymu bod lefel yr unedau gwag yn Sir Gaerfyrddin yn debyg i'r hyn a geir yng ngweddill Cymru. Nid oes tystiolaeth i awgrymu bod y sefyllfa yn sylweddol well na gwaeth na rhannau eraill o Gymru.

Mae'r lefel hanesyddol a chyson uchel hon o unedau gwag, ynghyd â newidiadau yn nhueddiadau defnyddwyr a phwyslais cynyddol ar gynnyrch o ffynonellau lleol, wedi helpu i greu'r amodau i ddatblygu siopau gwib.

2.4. Cyfraniad economaidd siopau gwib i'r economi

Mae siopau gwib yn dod yn nodwedd fwyfwy cyffredin yn amgylchedd manwerthu'r Deyrnas Unedig ac yn un sy'n gwneud cyfraniad cynyddol i'r economi manwerthu. Yn ôl ymchwil a gyhoeddwyd gan y Centre for Economics and

¹ Britain's Pop-Up Retail Economy 2015 - Blurring the lines between pop-up and traditional retail
Adroddiad gan y Centre for Economics and Business Research (Awst 2015)

Business Research ym mis Awst 2015¹:

- Cynhyrchodd y sector siopau gwib manwerthu dros £2.3 biliwn mewn trosiant yn y flwyddyn hyd at fis Awst 2015 – wedi cynyddu o £2.1 biliwn yn y flwyddyn flaenorol ac yn cyfateb i 0.76% o holl drosiant manwerthu'r Deyrnas Unedig.
- Cynyddodd cyfanswm trosiant y sector 12.3% o'i gymharu â'r 12 mis blaenorol – cynnydd a ategwyd gan gynnydd yn nifer y bobl sy'n ymweld a chynnydd o fwy nag £8 yng ngwariant blynyddol ymwelwyr ar gyfartaledd i oddeutu £124.
- Mae yna oddeutu 10,500 o siopau gwib ar draws y Deyrnas Unedig, yn cyflogi 26,200 o bobl yn fras. Mae'r twf ym mhoblogrwydd y ffenomen siopau gwib wedi'i yrru i raddau helaeth gan ddatblygiadau mewn ardaloedd lle ceir poblogaeth fawr a llawer iawn o ymwelwyr, lle mae siopau gwib wedi cael eu defnyddio am nifer o resymau:
 - Profi Ffrwd Refeniw Newydd
 - Cysylltu â Chwsmeriaid heb fod Ar-lein
 - Creu ymdeimlad o Frys - "Manteisiwch ar y Cyfle Tra Bydd ar Gael"
 - Marchnata Nwyddau o amgylch Sêl, Tymor neu Wyl
 - Addysgu Cwsmeriaid Newydd
 - Mynd i Ble mae'ch Cwsmeriaid
 - Creu Ymwybyddiaeth o Frand

Bydd yr adroddiad hwn yn ceisio darparu'r wybodaeth fel bod modd i'r Grŵp Cefn Gwlad benderfynu ar sail gwybodaeth pa un y gallai cynllun Siopau Gwib fod yn rhan o'r ateb – pe bai modd datblygu'r model busnes iawn – fel bod eu defnyddio o fudd i bedair carfan – y busnesau sy'n eu defnyddio, ymwelwyr â'r trefi, landlordiaid a chanol y trefi.

3. Methodoleg

3.1. Rhan 1

Gwneud gwaith ymchwil a nodi modelau posibl o 'siopau gwib' y byddai modd eu haddasu ar gyfer Sir Gaerfyrddin wledig.

3.1.1. Ymchwil desg ar-lein ac ymweliadau

- Siopau Gwib Bae Colwyn
- Pop-up Selkirk
- Pop-up Penzance
- Appear Here
- Siambr Fasnach Caerfyrddin
- Siambr Fasnach Llandeilo
- Cyngor Tref Castellnewydd Emlyn
- Cyngor Tref Llanymddyfri
- Cyngor Tref Caerfyrddin
- Cyngor Tref Sanclêr
- Cyngor Tref Hendy-gwyn
- Cyngor Bwrdeistref Caerffili
- Jamie Reynolds, Swyddog Datblygu Busnes CSC
- Angharad Harding, Swyddog Datblygu Busnes CSC
- Scottish Borders Council
- Jude Boutle, Hyrwyddwr Tref Llandrindod / Cydlynnydd y Farchnad Ieuenctid
- Rheolwr y Ganolfan, Rhodfa Santes Catrin
- Y Gymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol
- Partneriaeth Tref Abergwaun
- Cyngor Tref Castellnewydd Emlyn
- Cyngor Sir Penfro, y Rheolwr Cymuned, Diogelwch, Tlodi ac Adfywio
- WIRE Sir Gaerfyrddin

- Angharad Williams, Lan Llofft (Llanbedr Pont Steffan)
- Hang Fire Pump House (Caerdydd)
- Button Tree Lane (Abergwaun)
- Andrew Thomas, Landlord, Abergwaun
- Gwerthwyr Eiddo
- Terry Thomas, Caerfyrddin
- Adran Fasnachol John Francis, Arberth
- Edward H. Perkins, Hwlfordd
- Gerald Vaughan, Caerfyrddin
- Swift Relocations, Caerfyrddin
- Cooke and Arkwright, Caerdydd
- BJP, Llandeilo
- Clee Tompkinson and Francis, Llandeilo
- Donna Hathaway, Chess, Llandeilo
- Adroddiadau ac erthyglau perthnasol
- On The High Street, Mintel (Ebrill 2016)
- Britain's Pop Up Retail Economy 2015. Blurring the lines between pop-up and traditional retail, paratowyd gan EE
- How to Launch a Pop-Up Shop gan EE
- Pop Up Britain's Kit For Town Teams
- Pop to the Pop Ups – Adroddiad Terfynol Selkirk
- Bae Colwyn, Pecyn Siopau Gwib
- Rhestrau Rhanddeiliaid a Luniwyd:
 - Caerfyrddin 380
 - Castellnewydd Emlyn 96
 - Llandeilo 170
 - Sanclêr 142
 - Hendy-gwyn 101
 - Llanymddyfri 65

3.2. Rhan 2 – Ymgynghori â rhanddeiliaid

Isod ceir rhestr o'r gweithgareddau a gynhaliwyd fel rhan o ymgynghoriad i gasglu barn y cyhoedd yn gyffredinol a busnesau ynglŷn â'r potensial ar gyfer cynllun siopau gwib yn Sir Gaerfyrddin.

- Creu Holiadur Busnes
- Creu Holiadur i Ddefnyddwyr
- Ymweld â chyfarfod WIRE Sir Gaerfyrddin 20/6/2016
- Diwrnodau ymgynghori wedi'u trefnu, mis Gorffennaf a mis Medi 2016:
 - Llandeilo 21/7/2016, 5 Stryd Caerfyrddin, 10.00am.-7.00pm
 - Castellnewydd Emlyn 22/7/2016, Neuadd Cawdor 10.00am – 7.00pm
 - Caerfyrddin 25/7/2016, 7a Heol y Brenin, 10.00am – 7.00pm
 - Sanclêr 26/9/2016, Y Gât, 10.00am – 6.00pm
 - Hendy-gwyn 28/9/2016, M.L. Davies, 10.00am – 6.00pm
 - Llanymddyfri 30/9/2016, 3 Heol y Brenin, 10.00am – 6.00pm
 - Y Farchnad Ieuentid (mewn partneriaeth â Phrosiect Entrepreneuriaeth Syniadau Mawr Cymru, Llandrindod (mis Medi)

3. Methodoleg

3.1. Rhan 1

Llogwyd siop wag ar gyfer pob digwyddiad yn y chwe thref, fel lleoliad galw heibio lle gallai pobl rannu eu barn. Gwahoddwyd busnesau a rhanddeiliaid eraill; pob tref i ymweld â'r arddangosfa galw heibio. Cafodd y gwahanol ddigwyddiadau eu hyrwyddo drwy daflenni hysbysebu a phosteri, drwy'r cyfryngau cymdeithasol a thrwy weithio gyda'r wasg.

3.1.1. Ymchwil desg ar-lein ac ymweliadau

- Siopau Gwib Bae Colwyn
- Pop-up Selkirk
- Pop-up Penzance
- Appear Here

3.3. Rhan 3 – Y model sy'n cael ei ffafrio

Ar ôl y cyfnod ymgynghori, datblygwyd pedwar opsiwn i'w hystyried ymhellach wrth inni benderfynu ar y camau nesaf i'r prosiect. Datblygwyd matrices sgorio er mwyn defnyddio ffordd wrthrychol o fesur wrth ddeu y camau nesaf.

I sgorio'r opsiynau, câi sgôr ei rhoi yn erbyn cyfansawdd. Cae dylid sgoriau wedi'u pwysoli o ran eu pwysigrwydd o ystyried diben y cynllun siopau gwib', yn cynnwys y potensial i ddenu ymwelwyr newydd a'r tebygolrwydd y byddai'n arwain at gyfleoedd busnes cadarnhaol.

- Cyngor Tref Castellnewydd Emlyn

3.4. Priodoldeb, cwmpas ac effeithiolrwydd ymgyngghori

Wrth ddylunio'r ymarferiad ymgyngghori, gwnaed hysbys tebygolrwyddion allweddol ymarfer da wrth ymgyngghori, yn cynnwys: priodoldeb a pherthnasedd ymgyngghoriad i'r rhanddeiliaid oedd wedi cael gwahoddiad; pa mor gyflawn oedd y rhestr o rhanddeiliaid y gofynnwyd iddynt am eu barn; cwmpas yr ymgyngghoriad – h.y. gallu i ddylanwadu ar y canlyniad, hygyrchedd yr ymgyngghoriad a thryloywder y broses a'r canlyniad.

- Cyngor Bwrdeistref Caerffili

Defnyddiwyd amryw o ddulliau i gyrraedd y rhanddeiliaid, Swyddog Datblygu Busnes CSC a'r hysbys. Byddai ganddynt ddiddordeb ynddo, yn cynnwys cynnal digwyddiadau ar adegau ac mewn lleoliadau pan fyddai pobl sy'n ymweld â'r trefni'n gallu cymryd rhan, gan hyrwyddo'r cyfleoedd drwy ddatganiadau i'r wasg, hyrwyddo ar gyfryngau cymdeithasol a thrwy ddefnyddio poster a thafenni hysbysebu, a thrwy wahoddiadau personol i gyrrff sy'n cynrychioli rhanddeiliaid allweddol ym mhob un o'r chwe thref.

Drwy'r gweithgareddau a gynhaliwyd, rydym yn credu ein bod wedi gallu adlewyrchu barn y rhai sydd â diddordeb yn deg a'n bod wedi darparu cyfleoedd iddynt i lywio'r canlyniad. Bydd cyhoeddi'r adroddiad hwn a'i atodiadau yn galluogi rhanddeiliaid i graffu ar y canlyniad gyda thryloywder, ac i weld sut y cafodd eu barn ei hadlewyrchu yn y canlyniadau.

4. Canfyddiadau – Ymchwil Desg

Mae'r adran hon yn rhoi enghreifftiau o ble mae siopau gwib wedi cael eu defnyddio yn y Deyrnas Unedig, ac mae'n canolbwyntio ar y materion / gwersi cyffredin a ddysgwyd o'r enghreifftiau hynny.

4.1. Lleoliad

Mae'r rhai sy'n rhedeg unedau siopau gwib wedi cael lleoliadau gan landlordiaid sy'n barod i'w darparu fel ffordd o lenwi siopau gwag, am ran o'r flwyddyn o leiaf. Mae lleoliadau canol trefi a dinasoedd hefyd wedi canfod eu bod yn fanteisiol o ran denu ymwelwyr newydd i'r canol drwy gynnig rhywbeth gwahanol. Nid dim ond fel unedau manwerthu maen nhw'n cael eu defnyddio – maent wedi'u defnyddio hefyd fel clybiau nos, sinemâu neu orielau celf, gan ychwanegu amrywiaeth at yr hyn sy'n cael ei gynnig i ymwelwyr yng nghanol trefi.

Mae'r ddogfen a gynhyrchwyd gan EE, The Pop-Up Shop Start Up Guide, yn nodi mai hanner y frwydr wrth sefydlu siop wib yw dewis y man iawn ar ei chyfer. Mae dod o hyd i leoliad lle ceir nifer fawr o ymwelwyr yn bwysig, o ran cael cyhoeddusrwydd i'r brand a chynhyrchu busnes, ond rhaid i entrepreneuriaid eiddgar ystyried y carfanau mewn cymdeithas y maen nhw'n eu targedu. Nid yw cynulleidfa enfawr yn dda i ddim os nad oes gan y bobl ddiddordeb yn yr hyn y mae'r siop wib yn ei gwerthu. Mae'n hanfodol fod darpar fanwerthwyr siopau gwib yn gwneud eu hymchwil ymlaen llaw, gan ddewis lleoliad sy'n gweddu'n dda i'r gynulleidfa darged.

Mae llai o dystiolaeth o ddefnyddio unedau siopau gwib yn llwyddiannus mewn ardaloedd gwledig, lle ceir llai o ymwelwyr yn gyffredinol. Ond mae rhai enghreifftiau o drefi gwledig – a busnesau unigol – sydd wedi treialu eu defnyddio. Mae tystiolaeth o'n hymchwil blaenorol ni yn dangos bod angen i drefi ddatblygu ystod eang o resymau i bobl ymweld er mwyn i'r dref gyfan elwa.

4.2. Landlordiaid

Gellir priodoli twf manwerthu siopau gwib yn rhannol i'r ffaith fod angen i landlordiaid lenwi siopau gwag. Busnes wedi'i leoli yn Llundain yw Appear Here a'i nod yw dod â bywyd newydd i'r stryd fawr ar draws y wlad a hwyluso gosodiadau tymor byr o'i bortffolio o eiddo mewn lleoliadau amlwg ar draws y Deyrnas Unedig.

Wrth weithio'n agos gyda landlordiaid a gwrando arnynt, canfu Appear Here fod landlordiaid eisiau gwell dealltwriaeth o siopau gwib ac am i bobl gael ffydd yn eu hygyrdd. Drwy greu'r hyn maen nhw'n ei ddisgrifio fel Landlord Dashboard App. erbyn hyn mae ganddynt siop un stop i landlordiaid sy'n ei gwneud hi'n haws ac yn symlach iddynt osod eu lle, gan gwtogi'r amser y mae'n ei gymryd i gytuno ar brydles o fisoedd i ddim ond ychydig o ddyddiau. Maen nhw hefyd yn gallu monitro perfformiad pob lle sydd yn eu portffolio.

Dangosodd yr ymchwil hwn fel landlordiaid absennol yn rhwystr sylfaenol i'r stryd fawr. Ar ôl penderfynu mai Heol y Brenin oedd y lleoliad yr hoffem gynnal y diwrnod ymgynghori ynddo yng Nghaerfyrddin, nodwyd 2 eiddo gwag posibl a fyddai'n addas i'r gweithgaredd. Sicrhawyd 7a Heol y Brenin drwy gydweithio ag Adran Fasnachol John Francis yn gweithio ar ran eu cleient, sydd wedi'i leoli yn Lloegr. Roedd y profiad yn Llanymddyfri yn debyg i'r sefyllfa yng Nghaerfyrddin gyda Cleo Tomkinson yn sicrhau 8 Heol y Brenin drwy eu cleient, sydd hefyd wedi'i leoli yn Llundain. Roedd gweithio'n uniongyrchol gyda landlordiaid lleol yn Hendy-gwyn a Llandeilo yn broses lawer haws. Defnyddiwyd adeiladau'r Cyngor yn Sanclêr a Chastellnewydd Emlyn gan nad oedd unedau gwag addas ar gael.

Dangosodd tystiolaeth anecdotaidd o bob un o'r chwe thref nad oes gan landlordiaid absennol ddiddordeb yn eu heiddo na'r ffordd maen nhw'n edrych, a bod hyn yn effeithio ar y stryd fawr.

Mae profiadau'r modelau posibl a nodwyd fel rhan o'r prosiect hwn yn cadarnhau canfyddiadau ein hymchwil.

Nododd Sinead Henahan, Rheolwr Diogelwch Cymunedol, Tlodi ac Adfywio yng Nghyngor Sir Penfro, un o brif hyrwyddwyr y cynllun siopau gwib yn Sir Benfro, nad oes gan lawer o landlordiaid absennol – perchenogion yr hyn roedd hi'n ei ddisgrifio fel “adeiladau pensiwn” – unrhyw ddiddordeb mewn cynhyrchu incwm posibl ohonynt. Mae hi hefyd o'r farn fod Siambrau Masnach / Partneriaethau Tref lleol wedi cael mwy o lwyddiant yn gweithio gyda landlordiaid na'r Cyngor Sir, yn rhannol gan nad oedd gan y Cyngor Sir unrhyw aelod staff pwrpasol i gysylltu â landlordiaid.

Nododd Jeremy Martineau, Ysgrifennydd Mygedol Siambr Fasnach a Thwristiaeth Abergwaun ac Wdig, hefyd y byddai, o edrych yn ôl, wedi bod yn well cynnwys y landlordiaid o'r cychwyn cyntaf.

Fodd bynnag, mae gweithio gyda landlord lleol yn Abergwaun wedi bod yn llwyddiant mawr. Mae Andrew Thomas, landlord y siop wib lwyddiannus, yn gwbl gefnogol o'r fenter a dywed fod y cynllun nid yn unig yn clirio'i gostau rhedeg ond ei bod "yn well cael rhywbeth yna na dim byd".

Mae'n ymddangos mai dyna oedd y sefyllfa i'r cynllun Siopau Gwib yn Selkirk yn yr Alban hefyd. Mae Will Haagenad yn nodi bod y Siambr Fasnach – prif hyrwyddwr eu prosiect nhw – wedi cynnwys perchnogion eiddo o'r cychwyn. Nododd ei bod yn hollbwysig hyrwyddo'r elfennau cadarnhaol i'r landlordiaid, e.e. bod modd arddangos yr unedau tra maent yn cael eu defnyddio i ddarparu brynwyr a bod hynny'n well na dangos uned wasg ar stryd fawr wag iddynt. Dywedodd hefyd y bydd cynyddu nifer yr ymwelwyr yn effeithio ar werth eiddo yn y tymor hir, tra mae gadael eiddo'n wag yn cael effaith gwbl groes i hynny.

4.3. Gweithio mewn Partneriaeth

Mae Abergwaun a Selkirk yn enghreifftiau lle mae Partneriaethau Tref/Siambrau Masnach wedi bod yn allweddol er mwyn creu a gyrru cynlluniau siopau gwib

Mae Penzance a Bae Colwyn, ar y llaw arall, yn enghreifftiau da o nifer o asiantaethau yn dod ynghyd mewn ymgais i adfywio'r stryd fawr.

Cychwynwyd Pop Up Penzance yn 2013 gan Rachel Martin a Maria McEwen oherwydd "roedden ni'n meddwl y dylai rhywun wneud rhywbeth ynglŷn â'r siopau gwag truenus yn Penzance". Roeddent yn sylweddoli y gallai'r stryd fawr ddarparu cyfleoedd i ddod â gweithgareddau newydd, llawn hwyl, i'r stryd fawr yn ogystal â chynnig cyfleoedd manwerthu, felly aethant ati i greu partneriaethau gydag amrywiaeth eang o unigolion a grwpiau lleol – 49 i gyd. Ers hynny mae'r fenter wedi cefnogi busnesau newydd, wedi galluogi pobl leol i fwynhau ac ymwneud â'r theatr, ffilm, a digwyddiadau celfyddydol a cherddoriaeth o bob math, ac wedi galluogi'r gymuned i ddatblygu gwasanaethau er budd pobl leol.

Cynllun ar y cyd yw Siopau Gwib Bae Colwyn rhwng Gwasanaethau Hunangyflogaeth CAIS, Cymunedau yn Gyntaf Conwy a Chynllun Treftadaeth Tref Bae Colwyn. Nododd Liz Wilson, Rheolwr Prosiectau ac Ystadau gyda CAIS, fod gweithio mewn partneriaeth yn hanfodol iddyn nhw er cyflawni amcanion y fenter, sy'n cynnwys nid dim ond cynyddu nifer yr ymwelwyr ond hefyd waith ehangach i annog busnesau newydd, adfywio a sefydlu ymdeimlad o falchder yn y dref a chynnig unedau ar brydlesau tymor byr.

4.4. Trethi

Tâl sy'n cael ei godi ar eiddo masnachol yw'r Ardrethi Annomestig Cenedlaethol (Trethi Masnachol) ac mae'n cael ei gasglu gan yr Awdurdod Lleol er 1990. Ar 1af Hydref 2010 daeth cynllun rhyddhad ardrethi busnes mwy cynhwysfawr i rym i fusnesau bach. Mae'n darparu cymorth i fusnesau mewn unedau bach, fel yr amlinellir isod:

- Bydd gan Eiddo â Gwerth Ardrethol nad yw'n fwy na £6,000 hawl i ryddhad 100%.
- Uwchlaw Gwerth Ardrethol o £6,000, a hyd at derfyn uchaf o £12,000, bydd y cymorth yn lleihau'n raddol, ar raddfa o oddeutu 1% am bob £60 o Werth Ardrethol e.e.: - bydd eiddo â Gwerth Ardrethol o £6,120 yn denu rhyddhad o 98%; bydd eiddo â Gwerth Ardrethol o £6,600 yn denu rhyddhad o 90%.
- Mae rhai amrywiadau hefyd ar gyfer mathau penodol o fusnesau, yn cynnwys Swyddfeydd Post, safleoedd Gofal Plant Cofrestredig ac Undebau Credyd, ac mae busnesau a fyddai wedi cael lefel uwch o gymorth o dan y cynllun gwreiddiol yn cael eu gwarchod.

Bydd y rhyddhad a amlinellwyd uchod yn gymwys i fusnesau o bob math, nid dim ond manwerthu.²

Canfu Pop Up Penzance ei fod, fel cwmni budd cymunedol, yn atebol am drethi busnes llawn ond y gallai wneud cais am ryddhad ardrethi dewisol, er bod rhaid iddo wneud hynny bob un tro y mae'n rhentu eiddo. I ddangos y sialensiau ariannol yr oedd rhai busnesau'n eu hwynebu mewn rhai o'r prif ardaloedd, roedd y trethi busnes yn

unig yn £278 yr wythnos ar yr uned gyntaf i'w rhentu. Bydd Pop Up Penzance fel arfer yn talu'r costau o ran trethi busnes a chyfleustodau, ar sail ddi-rent, fel bod gwerth yr ased yn cael ei ddiogelu, a gall y landlord hawlio'r eiddo'n ôl ar unrhyw adeg.

Yn yr Alban, mae'r rheolau fymryn yn wahanol. Roedd siopau gwib Selkirk yn rhan o gynllun disgownt busnesau bach Scottish Borders Council. Nid oedd yr un ohonynt felly'n talu unrhyw ardrethi annomestig. Gan fod eu prosiect yn cael ei redeg mewn tref fach wledig, nid oedd y gwerthoedd ardrethol ar yr un lefel ag y byddent mewn ardal a gâi ei diffinio fel "prif ardal fanwerthu". Roedd ein sgysiau cychwynnol â Scottish Borders Council ynglŷn â gwerth ardrethol yn gadarnhaol iawn ac roedd swyddogion y cyngor yn barod iawn eu cymorth o ran ystyried sut i ddelio ag ardrethi siopau a oedd wedi bod yn wag am gyfnodau hir o amser ac a oedd yn annhebygol o gael eu gosod heb i'r cynllun siopau gwib eu rhentu. Os yw siopau'n wag, gallant wneud cais am "ryddhad eiddo gwag". Gan nad yw defnydd siopau gwib o reidrwydd yn weithgaredd bob dydd, gall y cyngor ddefnyddio'i ddisgresiwn, felly mae cael perthynas dda â'r uned datblygu economaidd a'r aseswyr yn y cyngor yn allweddol yn y cyswllt hwn.

Ym Mae Colwyn, defnyddiodd Cais (a oedd yn rhan o'r fenter ar y cyd) ei statws elusennol i gael rhyddhad ardrethi yn y siop.

4.5. Arian Craidd

4.5.1. Abergwaun

Dyfarwyd £50,000 yn 2014 i bartneriaeth Canol Tref Abergwaun ac Wdig i yrru'i chynllun gweithredu i adfywio canol y dref ymlaen. Roedd yr arian yn rhan o becyn o £845,000 o gymorth i helpu 20 canol tref ar draws Cymru i gynyddu nifer yr ymwelwyr, denu mwy o fuddsoddiad, lleihau effaith eiddo gwag a chefnogi busnesau lleol. Sicrhwyd yr arian drwy raglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid Llywodraeth Cymru.

4.5.2. Penzance

Nod Pop Up Penzance oedd galluogi amrywiaeth eang o weithgareddau mewn siopau gwag ac mae hynny wedi'i wireddu drwy weithio'n llwyddiannus mewn partneriaeth â rhanddeiliaid. Ymysg yr enghreifftiau mae arian gan Comic Relief i le Pop-Up Ping Pong; yn 2014 cawsant grant o £10,000 gan Gyngor y Celfyddydau i ariannu'u digwyddiad ffotograffig "A Passion for Penzance", cafwyd arian gan y rhaglen Datblygu Economaidd Cymunedol – rhaglen a ddarperir gan Co-Operatives UK mewn partneriaeth â'r Community Development Foundation, y New Economics Foundation, Community Development Finance Association a Locality – ar gyfer prosiect dan arweiniad Pop-Up Penzance, sy'n treialu nifer o farchnadoedd ieuenctid gan weithio gydag entrepreneuriaid ifanc i roi profiad ymarferol iddynt, datblygu'u sgiliau ac yn y pen draw i dyfu busnesau newydd; ac ymunwyd â dau grŵp cymunedol arall i sicrhau cyllid torfol ar gyfer digwyddiad Nadolig.

4.5.3. Bae Colwyn

Menter gan Brosiect Treftadaeth Tref Bae Colwyn yw'r Siop Wib sy'n cael ei rhedeg mewn partneriaeth â Cymunedau yn Gyntaf Conwy, "Just the Business". Cafwyd arian gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri i gyflenwi prosiectau ffisegol ac i gefnogi adfywio cymunedol. Sefydlwyd y prosiect er mwyn helpu pobl leol sy'n mentro i fusnes am y tro cyntaf fel manwerthwyr. O'r £17,000 a ddyrannwyd i'r cynllun ar y cyd, defnyddiwyd £5,000 i brydlesu'r siop a'r gweddill ar y costau sefydlu. Defnyddiodd Cais ei statws elusennol i gael rhyddhad ardrethi i'r siop. Cafwyd £6,700 gan y Cyngor ac arian cyfatebol gan Cymunedau yn Gyntaf, a £3,600 gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri.

4.5.4. Selkirk

Menter gan Siambr Fasnach Selkirk yw Siopau Gwib Selkirk. Cafodd y prosiect ei ariannu i ddechrau gan Scottish Borders Council drwy £15,000 o arian LEADER a £3,000 o gyllid Arian i Bawb gan y Loteri.

² <http://www.carmarthenshire.gov.wales/home/business/business-rates/business-rates-relief/#.WljUTH2BTIU>

4.6. Costau Rheoli a Rhedeg

4.6.1. Abergwaun

1 uned – Button Tree Lane

Ar hyn o bryd mae'r siop yn cael ei rhentu gan grŵp cydweithredol o fasnachwyr celf a chrefft. Fel siop wib, mae'r crefftwyr yn defnyddio'r lle i brofi'r farchnad. Caiff y lle ei ariannu drwy gyfraniadau a seilir ar y cyfraddau canlynol:

- 35% o gomisiwn + 2 ddiwrnod y mis yn gweithio yn y siop
- 25% o gomisiwn + 2 ddiwrnod y mis yn gweithio yn y siop
- £40 y mis + 10% o gomisiwn
- £20 y mis + 20% o gomisiwn

Er ei bod wedi bod yn masnachu am fwy na 12 mis, mae'r cytundeb wedi'i seilio ar brydles mis ar y tro, sy'n adlewyrchu natur dros dro'r siop. Mae'r gwaith rheoli cyffredinol yn cael ei wneud gan un o sylfaenwyr gwreiddiol y siop wib ac mae llwyddiant y fenter yn ddibynnol iawn ar ei hegni a'i gweledigaeth hi.

4.6.2. Penzance

3 uned (gwahanol feintiau)

1 uned yn cael ei rhentu ar sail tymor hir ar hyn o bryd.

Fe'u rheolir gan y ddau sylfaenydd. Mae cost rhentu lle siop wib yn dibynnu ar yr eiddo unigol. Caiff y gost ei chyfrifo ar sail y trethi busnes, cyfleustodau, unrhyw gost rhentu a chyfraniad bach tuag at gostau gweithredu Pop Up Penzance. Gallai lleoedd yng nghanol y dref gostio unrhyw beth rhwng £100 a £400 yr wythnos.

Fel arfer bydd Pop Up Penzance yn atebol am y trethi busnes, a'r cyfleustodau, ar sail ddi-rent fel bod gwerth yr ased yn cael ei ddiogelu, ac i sicrhau y gall landlordiaid gael yr eiddo yn ôl pan fydd ei angen arnynt.

4.6.3. Bae Colwyn

2 uned - 22 Ffordd yr Orsaf:

Safle Cymunedau yn Gyntaf, yn cynnig cam 1 y prosiect prawf-fasnachu:-

- rhaid i fasnachwyr newydd gofrestru gyda'r Gwasanaeth Cychwyn Busnes (CAIS uchod)
- rhaid iddynt ddarparu cynnig (dim hirach na 2 dudalen)
- mae'n gysylltiedig â'r Ganolfan Waith. Gwnaeth y Ganolfan Waith gais am i gleientiaid beidio â chael eu cosbi am y cyfnod prawf-fasnachu o 13 wythnos ar yr amod fod unrhyw arian a wnaed yn cael ei roi mewn cyfrif ar wahân i'w fuddsoddi i gychwyn busnes.

Y tu mewn i'r siopau mae "cabanau masnachu" y gall busnesau newydd eu defnyddio'n ddi-rent gan roi'r cyfle iddynt i brofi prosiectau masnach a datblygu presenoldeb ar y stryd fawr. Mae cyfle hefyd i fanteisio ar y cymorth busnes sylfaenol sy'n cael ei ddarparu gan "Just the Business" ac i elwa o gysylltiadau rhwydweithio â gwasanaethau busnes Affinity a Chanolfan Busnes Conwy.

24 Ffordd yr Orsaf:

Siop cam 2 sy'n cael ei hariannu gan Lywodraeth Cymru drwy Brosiect Menter Treftadaeth Tref Bae Colwyn, yn cynnwys cyfle prawf-fasnachu am hyd at 6 mis. Pan ddaw'r arian i ben, ni fydd y prosiect yn gallu cynnal ei hun. Codir ffi o £50 y mis am y 3 mis cyntaf, yn cynyddu i £100 y mis am y 3 mis olaf.

Cymunedau yn Gyntaf oedd yn delio â'r holl ymholiadau a'r gofynion gweinyddol mewn perthynas â'r ddwy siop.

4.6.4. Selkirk

2 uned (5 i gychwyn ond 3 wedi'u cymryd fel gosodiadau tymor hir)

Cafodd y prosiect ei ariannu i ddechrau gan Scottish Borders Council drwy £15,000 o arian LEADER a £3,000 o gyllid Arian i Bawb gan y Loteri.

I ddechrau roedd 4-5 eiddo gwag. Dim ond dau eiddo gwag sydd yn y cynllun ar hyn o bryd ac mae'r lleill wedi'u gosod dros gyfnod hir. Roeddent i gyd wedi dechrau profi'r farchnad fel siopau gwib.

1 Tower Street (yn eiddo i Bwyllgor Adfywio Selkirk)

Hen siop wag yw 1TS sydd bellach yn eiddo i Gwmni Adfywio Selkirk ac wedi'i hadnewyddu ganddo, ac mae ar gael at ddefnydd y gymuned. Fe'i defnyddir yn bennaf fel siop wib neu le arddangos, ac mae modd i unrhyw sefydliad (masnachol neu elusennol) ei llogi.

Cyfraddau llogi (i bob archeb newydd o'r 1af Mehefin, 2016)

- £20 y diwrnod (neu ran o ddiwrnod) i sefydliadau nid-er-elw / cymunedol (diwrnodau'r wythnos)
- £30 y diwrnod (neu ran o ddiwrnod) i sefydliadau nid-er-elw / cymunedol (Sadyrnau)
- £30 y diwrnod (neu ran o ddiwrnod) i sefydliadau masnachol (diwrnodau'r wythnos)
- £40 y diwrnod (neu ran o ddiwrnod) i sefydliadau masnachol (Sadyrnau)

71 High Street

Ychydig yn fwy nag 1 Tower Street, mae 71 High Street yn lle hyblyg gyda ffenestr fawr ragorol yn edrych dros y stryd fawr. Mae wedi'i gostio ar £25 y diwrnod. Efallai y gellid cael gostyngiad ar gyfer archebion hirach.

Gan fod y prosiect wedi'i ariannu gydag arian Ewropeaidd LEADER i ddechrau, cafodd gymorth gan gynllun Grant Cymunedol y Cyngor (£10,000) i'w helpu i sefydlu ei hun. Ni ddefnyddiwyd yr arian i sybsideiddio rhent.

Ar y dechrau roedd gweinyddwr yn cael ei gyflogi'n rhan-amser. Roedd y dyletswyddau'n cynnwys cynnal y wefan a llwyfannau ar gyfryngau cymdeithasol yn ogystal â delio ag archebion, talu rhent, paratoi'r siopau a'u glanhau. Câ'r gweinyddwr ei ariannu drwy'r grantiau, ond erbyn hyn mae'n cael ei ariannu'n llwyr gan berchenogion yr eiddo. Mae'r gwaith o reoli'r cynllun wedi cael ei drosglwyddo'n ôl i berchenogion yr eiddo erbyn hyn gan fod y Siambr Fasnach yn teimlo bod y fenter wedi dod yn rhan o ddarpariaeth fanwerthu brif ffrwd y ffordd fawr a bod perchenogion yr eiddo yn gallu cael rhent ar yr un lefel gan siopau gwib ag y byddent yn ei gael drwy osod eu heiddo ar brydles tymor hir. Yn ôl Will Haageland, ni fyddai byth wedi gweithio heb weinyddwr penodedig.

4.7. Enghreifftiau o Weithgareddau

4.7.1. Abergwaun

Emporiwm o fwyniannau sy'n cynnig crefftau wedi'u gwneud â llaw'n lleol gan grŵp cychwynnol o 35 o bobl (wedi cynyddu i 72 erbyn hyn). Gall crefftwyr ofyn am i'w cynnyrch crefft safonol gael ei gynnwys er mwyn profi'r farchnad ac i roi rhyw argraff iddynt o'r potensial i greu busnes.

4.7.2. Penzance

Siop lyfrau; Mini-Ŵyl Ffilm i Gernyw. Roedd arddangosfa Golowan Diaspora yn dathlu diwylliant Cernyw dramor. Dangosai A Passion for Penzance harddwch y dref. Gwelodd Ping Pong Pop-Up bobl 8 - 80 oed yn camu oddi ar y stryd i fwynhau egwyl fywiog yn ystod eu trip siopa arferol. Cymerodd Cancer Research UK y lle am gyfnod byr dros y Nadolig. Arbrawf Humphry Davy - ymgynghoriad cyhoeddus ynglŷn â ffyrdd o ddathlu'r dyn enwog hwn o'u tref nhw ac o ddatblygu atyniadau i ymwelwyr. Cynhyrchiad theatrig o Grandfather Frost's Christmas Depot, Gweithdai Crefftau Nadolig.

4.7.3. Bae Colwyn

Gweithgareddau ffordd o fyw a chreadigol yn bennaf. Gwasanaethau ffotograffiaeth, nyddwyr gwlan prin, rhoddion unigryw wedi'u gwneud â llaw a chynhyrchwyr bwyd a diod lleol o bob rhan o sir Conwy yn dod ynghyd ac yn agor ddwywaith yr wythnos ar ddydd Gwener a dydd Sadwrn (prosiect tymor byr). Canolfan Atal Troseddu dros gyfnod y Nadolig.

Y prosiect mwyaf llwyddiannus - siop yn gwerthu gwlan o fridiau prin - yn masnachu a chynnal gweithdai, gyda chymorth Arian Treftadaeth Tref.

4.7.4. Selkirk

Gall busnesau masnachol, grwpiau cymunedol, mentrau cymdeithasol, mudiadau celfyddydol neu unigolion elwa o'r fenter siopau gwib. O fara i feics, o fagiâu i garpiau, ac o gacennau i grefftau, mae busnesau bach, busnesau mwy, busnesau sy'n cychwyn, crefftwyr, artistiaid ac elusennau i gyd wedi elwa o bresenoldeb dros dro, cost isel, isel ei risg ar stryd fawr Selkirk.

4.8. Ymgyrchoedd Siopau Gwib ac Elusennau

4.8.1. Heddlu Gogledd Cymru – Bae Colwyn

Sefydlwyd y siop wib yng Nghanolfan Victoria yn y dref gan agor dri diwrnod yr wythnos gydol mis Rhagfyr a mis Ionawr. Câi ei rhedeg fel canolfan atal troseddu ac i helpu i godi ymwybyddiaeth o gadw'n ddiogel dros gyfnod y dathlu a'r tu hwnt.

Bu swyddogion o amryw o adrannau yn ymwneud â'r fenter, yn cynnwys y Tîm Seiberdroseddu, ac unigolion o asiantaethau eraill fel Gwarchod Cymdogaeth.

4.8.2. Y Gymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol

Gwybodaeth a gafwyd gan Kayleigh Baldwin, Arweinydd Tîm Prosiect NAS Cymru

O ran sicrhau lleoliad, y brif broblem oedd dod o hyd i le oedd o fewn y gyllideb. Er bod llawer o gwmnïau'n cynnig disgownt i elusennau, nid ydynt yn ddisgowntiau mawr. Unwaith yr oedd hyn wedi'i ddatrys, nid oedd yn anodd sicrhau'r lleoedd. Mae yna gwmnïau a wnaiff helpu i ddod o hyd i leoedd mewn canolfannau siopa / siopau gwag, ac mae'r rhain i gyd ar gael drwy chwiliadau ar y rhyngwrwd. Y ffordd orau o fynd ati oedd cysylltu'n uniongyrchol â'r canolfannau siopa dros yr e-bost/ffôn, a siarad â'r timau sy'n rheoli'r canolfannau.

O ran codi ymwybyddiaeth, bu'r prosiect yn llwyddiant mawr, ond manteisiodd ar rwydweithiau a oedd yn bodoli'n barod o fewn y Gymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol i gyfleu gwybodaeth i'r cyhoedd drwy ddulliau fel gwefannau cyfryngau cymdeithasol, a'i gwefan hi a rhestrï postio. O blith y bobl/teuluoedd a ymwelodd â'r unedau, daeth llawer am eu bod eisoes yn cefnogi'r Gymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol, neu eu bod yn perthyn i rywun ar y sbectrwm.

4.8.3. Wythnos Dementia

Gweithiodd Cyngor Dinas Caerlŷr gyda'r Gymdeithas Alzheimer i ddarparu cyfres o ddigwyddiadau a gweithgareddau mewn uned siop wib gydol Wythnos Ymwybyddiaeth o Dementia. Roedd hyn yn cynnwys meddygon teulu'n rhoi cyngor ynglŷn â dementia, a "bocsys cof" a drefnwyd gan amgueddfeydd y ddinas a oedd wedi'u llenwi â gwrthrychau gyda'r bwriad o sbarduno atgofion pobl â dementia. Cafwyd rhywfaint o gydweithredu â siopau eraill e.e. rhoddodd siop Apple arddangosiad o sut y gall technoleg helpu pobl â dementia. Mae hyn yn enghraifft o sut y gallai manwerthwyr eraill ar y stryd fawr gyfrannu drwy gefnogi gweithgareddau ymwybyddiaeth ar y stryd fawr.

4.9. Enghreifftiau eraill o siopau gwib manwerthu

4.9.1. Lan Llofft Llanbedr Pont Steffan

Siop ffasiwn yw Lan Llofft yn Llanbedr Pont Steffan sy'n eiddo i'r entrepreneur lleol, Angharad Williams. A hithau'n angerddol ynglŷn â'r ffordd o fyw yn ei thref enedigol, rhoddodd Angharad y gorau i yrfa fel prynwr ffasiwn gyda River Island i gychwyn ei menter ffasiwn ei hyn ar y stryd fawr yn Llambod. Wedi canfod bod prinder ymwelwyr â'r dref rhwng dydd Llun a dydd Gwener, o 9 tan 5, yn broblem, ymgorfforodd Angharad y cysyniad o siopau gwib yn ei strategaeth. Gan weithio gyda'i chronfa o gwsmeriaid mewn ardaloedd ar draws Cymru, mae Angharad yn rhentu lleoliad fel clwb rygbi neu gaffi ar ôl oriau neu ar y Sul. Gwahoddir ffrindiau a theulu i'r digwyddiadau. Nid yn unig y mae hyn yn cynyddu'r gwerthiant yn y tymor byr ond mae hefyd yn gwneud y brand yn fwy adnabyddus yn y tymor hir. Mae prosiect diweddaraf Angharad yn cynnwys prydlesu siop wib 9 mis yn yr Hen Lyfrgell yng Nghaerdydd.

4.9.2. John Lewis

Agorodd John Lewis ei siop wib gyntaf ar stryd fawr Caerwysg. Roedd yn cynnwys ffasiwn, harddwch, nwyddau electronig i ddefnyddwyr a chynnyrch cartref mewn amgylchedd cyfoes o ddyluniad diwydiannol gyda 1200 troedfedd sgwâr yn fras o le manwerthu. Bu'r siop ar agor am chwe wythnos.

Cafodd y siop ei dylunio yn unol â strategaeth omni-sianel John Lewis ac fe'i defnyddiwyd hefyd fel canolfan Clicio a Chasglu. Roedd y gwasanaeth rhad-ac-am-ddim yn galluogi siopwyr i ddewis o blith mwy na 200,000 o eitemau ar wefan y grŵp a'u casglu o siop wib John Lewis ar ôl 2pm y diwrnod wedyn.

Dyweddodd Peter Ruis, cyfarwyddwr brand a phrynu gyda John Lewis: “Mae'r ffordd hon o lansio siop newydd yn sefydlu cysylltiad byw â'r gymuned leol, ac ar yr un pryd mae'n mynd yn ôl at hanfodion manwerthu – dod o hyd i safle, dewis casgliad penodol a'i gyflwyno i gwsmeriaid mewn ffordd greadigol ac unigryw”.

4.9.3. Temple Cycles

Agorodd Temple Cycles ym Mryste siop wib mewn hen oriel gelf ar y stryd a elwir yn Christmas Steps. Yn ogystal â beiciau'r cwmni ei hun, sy'n cael eu hadeiladu â llaw, roedd y siop yn gwerthu ategolion ac anrhegion ar thema beicio. Yn ôl ei sylfaenydd, Matt Mears, mae'r model siop wib wedi bod yn rhan o strategaeth fusnes Temple erioed at ddibenion gwerthu yn ogystal ag er mwyn creu ymwybyddiaeth o'r brand. Yn ogystal â Bryste, ei dref enedigol, mae Matt Mears yn ddiweddar wedi agor siopau gwib yn Cheltenham a Llundain ynghyd â chymryd rhan mewn digwyddiadau lleol e.e. marchnad Froome a chwpl o ddigwyddiadau yng Ngwlad yr Haf. Mae'r siopau gwib yn agor am wythnos ar y tro.

‘Maen nhw'n rhoi'r cyfle inni i gwrdd â chwsmeriaid newydd, cwsmeriaid na fyddent efallai yn gallu teithio i weld ein beics. Mae'n rhoi cyfle i bobl roi cynnig ar ein beics, a gallwn gymryd archebion hefyd.’

4.9.4. Hangfire Smokehouse

Samantha Evans a Shauna Guinn sy'n cael y clod am roi momentwm i'r mudiad tai bwyta gwib a bwyd stryd yng Nghaerdydd, gan ail-greu barbeciws dilys yn arddull taleithiau deheuol America ond yn defnyddio cynnyrch o Brydain.

Mae Croeso Cymru wedi tynnu sylw at lwyddiant tai bwyta gwib ar ei wefan. Yn y blynyddoedd diwethaf cafwyd chwa o egni newydd yng Nghaerdydd o ran y ddarpariaeth bwyd. Yn unol â'r duedd fyd-eang i ddarparu bwyd stryd, mae digwyddiadau bwyd gwib Caerdydd wedi mynd â'r sawl sy'n chwilio am fwyd i leoedd newydd a chreadigol. Mae'r manau bwyta gwib yn gymysgedd eclecticig o arloeswyr bach sy'n caru bwyd, ac mae pobl yn ciwio rownd y bloc i gael mynediad. Dyma enwi nifer fach yn unig ohonynt:: Got Beef, Ffwrnes Pizza, Jol's Food, Meat and Greek, Macho Nacho, Lilo's Pasta, Rollin' Hot Dog Co., Drunken Sailor, Street Food Cardiff, Riverside Market. Twitter yw'r prif fforwm i hysbysebu pryd a ble y byddan nhw'n ymddangos.

4.9.5. 'Airbnb for Pop-ups'

Un enghraifft ryngwladol - Yn Ffrainc, mae JeLoueUneBoutique yn debyg i Airbnb ond mai lle manwerthu gwib y mae'n ei gynnig. Yn ôl erthygl a gyhoeddwyd gan Influencia, plattform ar-lein yw JeLoueUneBoutique sy'n gallu hysbysebu, a chyflenwi, gofod manwerthu i frandiau ac entrepreneuriaid sy'n chwilio am le manwerthu dros dro. Mae'r plattform yn honni mai ef yw porthol ar-lein cyntaf Ffrainc sydd wedi'i neilltuo'n gyfan gwbl i osod lle manwerthu ar sail siop wib, dros dro.

Dengys adroddiad Mintel, Online Retailing – France, Gorffennaf 2016, fod 89% o ddefnyddwyr yn Ffrainc wedi siopa drwy sianelau ar-lein yn y 12 mis diwethaf. Gyda chynifer o bobl yn manteisio ar hwylustod siopa ar-lein, mae siopau brics-a-morter yn gorfod gweithio'n galetach nag erioed i argyhoeddi pobl i godi a gadael y tŷ a dod allan i'r stryd fawr; gallai siopau gwib dros dro, egsgliwsif, fod yn un ateb i frandiau. Yn ôl Mintel, efallai fod rhai'n credu bod y chwyldro siopau gwib wedi bod ac wedi mynd ond maen nhw'n gweld nifer da o frandiau'n creu siopau gwib a chynnyrch mwy egsgliwsif a hynny, yn gynyddol, am gyfnod byr o amser. Er enghraifft, yn Ffrainc agorodd Dove siop wib arbrol dros dro ym Mharis a oedd yn cynnig popeth o weithdai ar hunan-barch i gynnnyrch y gellid ei addasu ar gyfer yr unigolyn, tra agorodd IKEA Sbaen ddwy siop wib ym Madrid a Barcelona i ddathlu'i 20fed pen-blwydd gan gynnig set unigryw o gynnnyrch nad oedd ar gael mewn unrhyw siopau IKEA arferol. Dylai brandiau sy'n dymuno agor rhywbeth amgenach na dim ond siop wib gonfensiynol gynnig mynediad cyfyngedig, cynnyrch unigryw a dylent bwysleisio'r agwedd dros dro. Dyna'r siopau sy'n creu ymdeimlad o gynnig cyfle a'u bod yn egsgliwsif, gan fynnu sylw.

4.10. Profiadau Cyffredin

4.10.1. Amcanion

Tynnu pobl i mewn.

Roedd pob un o'r modelau yr edrychwyd arnynt yn cynnig "cynyddu nifer yr ymwelwyr" fel un o'r prif amcanion. Fodd bynnag, nid oes unrhyw ffigurau pendant ar gael i brofi bod hyn wedi digwydd. Cynyddodd nifer yr ymwelwyr â Selkirk ryw 12% yn dilyn sawl blwyddyn o ostyngiad yn y niferoedd. Fodd bynnag, mae Selkirk yng nghyfnod cynnar ei Gynllun Adfywio Ardal Gadwraeth a gallai hynny fod yn ffactor sy'n cyfrannu at y cynnydd hwn yn nifer yr ymwelwyr â'r dref.

4.10.2. Ffactorau Llwyddiant

- Gweithio mewn Partneriaeth: Grŵp Llywio neu bwyllgor bach a chefnogol y gallwch ei ddefnyddio fel cyfrwng i gael barn ac fel ffynhonnell ychwanegol o wybodaeth, arbenigedd a chysylltiadau.
- Gweinyddwyr penodedig:
- Cynnwys landlordiaid o'r cychwyn cyntaf
- Cynlluniau cymunedol a gweithgarwch codi arian – nid masnachol yn unig.
- Sicrhau arian craidd
- Ychwanegu gwerth i'r Stryd Fawr (nid dim ond sothach)
- Buddsoddi i wneud i eiddo edrych yn ddeniadol

4.10.3. Ffactorau Risg

- Digio busnesau presennol sy'n amheus o gystadleuaeth
- Bod busnesau presennol dan yr argraff fod manwerthwyr siopau gwib yn rhentu lle am ddim.
- Y berthynas rhwng Cynghorau Tref a'r Cyngor Sir
- Sicrhau bod cytundebau wedi'u diffinio'n glir. Enghraifft o Landudno - cymerodd menyw brydles 3 wythnos i arddangos ei busnes adfer dodrefn a phan ddaeth y cyfnod i ben, gadawodd a sefydlu ei hun o'i chartref. Roedd wedi defnyddio'r amser i sefydlu sylfaen fach o gleientiaid ac i dynnu sylw at ei henw. Yng nghydestun amcanion partneriaeth Bae Colwyn, nid dyna oedd y bwriad.
- Yswiriant: Mae'n tueddu i fod yn haws gyda gosodiadau hirach. Mae yswiriant i eiddo siop wib yn broblem fawr. Canfu Selkirk nad yw'r diwydiant yswiriant yn gefnogol iawn o'r syniad. Mae'r tenantiaid sydd wedi manteisio ar unedau siopau gwib yng Ngororau'r Alban wedi gwneud hynny am gyfnodau byr iawn o 1-3 diwrnod ar gyfartaledd, felly mae nifer y bobl a'r busnesau sy'n mynd drwy'r unedau wedi bod yn uchel. Mae hyn yn cyferbynnu â'r hyn sydd i'w weld yn gweithio mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig (h.y. ardaloedd trefol gyda llawer o ymwelwyr), lle mae'r archebion yn tueddu i fod yn hirach e.e. 6 wythnos – 3 mis.
- Yr ymdrech sy'n ofynnol i gael pobl i ymrwymo a chyfrannu.

4.10.4. Cynaliadwyedd a pherchenogaeth

- Mae pob model wedi esblygu fel rhan o weithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid eraill sydd â buddiant. Mae'r mwyaf llwyddiannus (Selkirk a Penzance) wedi ymdrechu i gynnwys landlordiaid o'r cychwyn cyntaf ac mae hynny wedi cynyddu ymwneud uniongyrchol landlordiaid i'r fath raddau fel bod Selkirk erbyn hyn wedi trosglwyddo rheolaeth y siopau gwib yn ôl i berchenogion yr eiddo. Gwnaed hynny gan eu bod yn teimlo bod y fenter wedi profi'i hun a'i bod bellach yn rhan o'r ddarpariaeth manwerthu brif ffrwd ac y gall perchenogion yr eiddo ennill rhent o'r unedau siopau gwib sy'n cyfateb o leiaf i'r hyn a gaent drwy brydlesu'u heiddo yn y tymor hir.

- Mae gan bob model feini prawf sydd wedi'u pennu ar gyfer pob eiddo ac mae'r rhain yn amrywio o fanwerthu i weithgareddau cymunedol a chelfyddydol ac i fusnesau sy'n cychwyn. Mae gan bob un raddfa symudol o gostau i bob eiddo.

4.10.5. Effaith tymor hir

Sylw cyffredin gan bob un o'r cynlluniau yw nad siopau gwib yw'r ateb tymor hir i'r benbleth sy'n wynebu'r stryd fawr, fel a ddangosir gan y dyfyniad hwn gan drefnwyr Pop-up Penzance:

“Er bod y cynllun siopau gwib yn llwyddiant, nid dyma'r ateb tymor hir i'r stryd fawr. Am nawr, gall siopau gwib ddod â llawer iawn o weithgarwch ac ymwelwyr newydd i'r stryd fawr, ynghyd ag optimistiaeth ac ysbrydoliaeth ynglŷn â chanol y dref. Rydym yn darparu'r cyfle i bobl ystyried sut ddyfodol maen nhw am ei weld.”

5. Canfyddiadau – Agweddau tuag at gynllun siopau gwib posibl yn Sir Gaerfyrddin wledig

Drwy gyfres o ddigwyddiadau ymgynghori, trafodaethau â rhanddeiliaid, a defnyddio arolwg ar-lein, gwnaethom holi pobl a busnesau sy'n gysylltiedig â'r chwe thref wledig am eu hagweddau tuag at eu tref ac a oeddent yn credu y byddai cynllun unedau siopau gwib o fantais i'w trefi.

Yma, rydym yn cyflwyno'r canfyddiadau allweddol mewn dau grŵp – 'Defnyddwyr' – y rhai sy'n ymweld â'r trefi a Busnesau – y rhai sydd â buddiant busnes yn y trefi yr oedd yr ymgynghoriad hwn yn canolbwyntio arnynt.

Mae Adran 3 yn trafod y fethodoleg ar gyfer y rhan hon o'r gweithgaredd. Roeddem am adlewyrchu barn y bobl sydd fel arfer yn ymweld â'r trefi'n ddyddiol, felly gwnaethom logi siop wag ym mhob un o'r chwe thref i weithredu fel lleoliad galw-heibio lle gallai pobl rannu'u barn. Gwahoddasom fusnesau a rhanddeiliaid eraill o bob tref i ymweld â'r arddangosfa galw-heibio.

Fel rhan o'r arddangosfa, darparwyd gwybodaeth i alluogi pobl i ddeall beth yw unedau 'siopau gwib' a sut y gellir eu defnyddio. Hefyd, fel rhan o'r arddangosfa, roedd tîm Datblygu Gwledig Cyngor Sir Caerfyrddin yn arddangos y cymorth sydd ar gael i fusnesau a chymunedau.

Cafodd y gwahanol ddigwyddiadau eu hyrwyddo drwy daflenni hysbysebu a phosteri, drwy'r cyfryngau cymdeithasol a thrwy weithio gyda'r wasg.



Ffigur 1 – Cipio barn a syniadau



Ffigur 2 – Casglu barn yn Llandeilo



Ffigur 3 – Casglu barn yng Nghastellnewydd Emlyn



Ffigur 4 – Un o'r paneli gwybodaeth

5.1. Barn ymwelwyr â'r trefi

Rydym wedi llunio adroddiad cynhwysfawr yn nodi barn siopwyr ac ymwelwyr â'r chwe thref. Mae'r prif adroddiad ar y canfyddiadau hyn i'w weld yn Atodiad A³.

Mae'r canfyddiadau allweddol yn cynnwys:

- Yn gyffredinol, roedd defnyddwyr yn cefnogi'r syniad o gynllun siopau gwib gydag 85% yn cytuno (63%) neu'n cytuno'n gryf (22%) â'r datganiad: *"Rwy'n credu y byddai cynllun siopau gwib o fudd i drefi gwledig Sir Gâr yn y tymor hir"*
- Roedd mwy nag 8 o bob 10 o'r ymatebwyr hefyd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r datganiadau canlynol:
 - Roedd 90% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r datganiad *"Mae siopau gwib yn cynnig cyfleoedd i amrywiaeth eang o sefydliadau a busnesau, nid dim ond unedau manwerthu e.e. arddangosfeydd celf, gwasanaethau ariannol neu iechyd, a gwybodaeth gyhoeddus"*
 - Roedd 89% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r datganiad *"Mae siopau gwib yn cynnig cyfle i bob math o fusnesau a sefydliadau i dreialu cynnyrch, gwasanaethau a marchnadoedd newydd gyda llai o risg"*
 - Roedd 83% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r datganiad *"Byddai siopau gwib yn help i ddenu rhagor o bobl i'r dref"*
- Proffiliwyd y bobl a gymerodd ran yn yr arolwg, ac ymysg y canfyddiadau hynny gwelsom fod mwyafrif (66%) yn ymweld â'r dref o leiaf ddwywaith yr wythnos.
- Roedd 62% o'r bobl yn treulio llai na 2 awr ar ymweliad arferol.
- Roedd y mwyafrif (57%) yn tueddu i wneud yr un pethau pan fyddant yn ymweld â'r dref.
- Rhagor o weithgareddau, mwy o amrywiaeth o siopau a gwell cyfleusterau parcio oedd y tri phrif ffactor a fyddai'n denu pobl i ymweld â'r dref yn amlach.
- Yn gyffredinol byddai pobl yn hoffi gweld mwy o amrywiaeth o siopau dillad a siopau delicatessen yn cynnig bwydydd lleol, er bod pobl yn ymwybodol hefyd o'r sialensiau o ran darparu amrywiaeth a fyddai'n apelio at ystod eang o siopwyr.
- Teimla ymwelwyr fod diffyg darpariaeth hamdden yn gyffredinol, sy'n golygu bod pobl yn fwy tebygol o ymweld â chanolfannau mwy.
- Mae'r duedd i gau banciau – tuedd sy'n parhau – yn achosi pryder i ymwelwyr ac yn golygu bod pobl a fyddai fel arfer wedi ymweld ag un o'r canolfannau yn y gorffennol i gyflawni'u busnes ariannol bellach yn gorfod mynd i drefi mwy oni bai eu bod yn defnyddio cyfleusterau ar-lein.
- Er bod lefel uchel o gefnogaeth i gynllun siopau gwib, roedd y farn hon yn aml yn cael ei mynegi i gefnogi'r syniad fod rhaid gwneud rhywbeth i arafu'r lleihad canfyddedig mewn gweithgarwch yn y dref. Tynnodd ymatebwyr sylw at nifer o faterion yr oedd angen, yn eu barn nhw, mynd i'r afael â nhw ar yr un pryd, neu roi blaenoriaeth uwch iddynt, er mwyn denu pobl yn ôl i ddefnyddio'u trefi lleol.

Mae'r rhain a'r canfyddiadau eraill o'r ymgynghoriad â Defnyddwyr wedi'u nodi'n llawnach yn Atodiad A.

³ At ddibenion yr adroddiad hwn rydym wedi defnyddio'r term 'defnyddwyr'.

5.2. Barn busnesau

Drwyddi draw, roedd agwedd busnesau tuag at y cysyniad o siopau gwib yn gadarnhaol, er ychydig yn llai felly na'r defnyddwyr:

- Roedd 88% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r datganiad *“Mae siopau gwib yn cynnig cyfleoedd i amrywiaeth eang o sefydliadau a busnesau, nid dim ond unedau manwerthu e.e. arddangosfeydd celf a gwybodaeth gyhoeddus”*

Mae hyn yn amlygu'r cyfle i siopau gwib gael eu derbyn gan fanwerthwyr a busnesau presennol os ydynt yn cwmpasu amrywiaeth eang o ddefnyddiau.

- Roedd 86% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r datganiad *“Mae siopau gwib yn cynnig cyfle i bob math o fusnesau a sefydliadau i dreialu cynnyrch, gwasanaethau a marchnadoedd newydd gyda llai o risg”*
Mae busnesau wedi dechrau ystyried y gallai fod cyfleoedd efallai i'w busnesau nhw i dreialu eu cynnyrch a'u gwasanaethau presennol mewn lleoliadau newydd drwy gynllun siopau gwib. Roedd nifer o'r busnesau yn teimlo bod hwn yn gyfle digon cyffrous, a dywedodd 43% y byddent yn ystyried agor siop wib neu ddefnyddio gofod a rennir ar gyfer eu busnes, er bod yna gafeatau yn ymwneud â logisteg etc.
- Roedd 7 o bob 10 yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r datganiad *“byddai cynllun siopau gwib o fudd i drefi gwledig Sir Gâr yn y tymor hir”*
Er nad oedd busnesau wedi'u hargyhoeddi i'r un graddau â defnyddwyr y gallai cynllun siopau gwib fod o fudd i'r dref yn y tymor hir (roedd 85% o ddefnyddwyr yn cytuno â'r datganiad hwn), roedd mwyafrif mawr yn dal i deimlo y gallai fod manteision tymor hir i gynllun o'r fath, pe câi ei weithredu'n iawn.
- Roedd mwy na hanner (56%) y busnesau yn anghytuno â'r datganiad hwn *“Byddai cynllun siopau gwib yn creu goblygiadau negyddol i'r dref”* ac roedd 23% arall ddim yn cytuno nac anghytuno â'r datganiad. Dim ond 2 o bob 10 o'r busnesau sy'n teimlo y byddai cynllun siopau gwib yn niweidiol i'w tref.
- A throi at ystyriaethau ymarferol cymryd rhan mewn cynllun siopau gwib posibl, nodwyd hefyd gan lawer o ymatebwyr o'r gymuned fusnes, er iddynt ddangos rhywfaint o frwdfrydedd ynglŷn â chynllun o'r fath, y gallai fod angen arian allanol i sicrhau y bydden nhw'n cymryd rhan. Trethi a'r costau sefydlu oedd yn cael eu gweld fel y ddau brif faes lle gallai fod angen cymorth.
- Teimlai busnesau fod cynllun siopau gwib llwyddiannus yn debygol o ddod â budd drwy ddenu mwy o siopwyr / ymwelwyr i'r trefi. Teimlent hefyd y byddai cynllun o'r fath yn llenwi lleoedd gwag yn y trefi, gan gwneud y trefi'n fwy deniadol i ymwelwyr.
- Mynegwyd pryderon gan rai busnesau y gallai lansio cynllun siopau gwib gael effaith niweidiol ar fusnesau eraill yn y dref, yn enwedig pe bai'r lle'n cael ei lenwi gan fanwerthwr a oedd yn cystadlu'n uniongyrchol â'u busnes nhw. Roedd rhai busnesau presennol hefyd yn credu y gallai rhai a fyddai'n cymryd rhan yn y cynllun siopau gwib gael mantais annheg am fod eu trethi'n cael eu sybsideiddio neu drwy fathau eraill o ariannu cyhoeddus, a allai danseilio cystadleuaeth.
- Tynnodd perchenogion busnes sylw hefyd at faterion eraill yn eu trefi unigol yr oedd angen mynd i'r afael â nhw er mwyn gwella'u trefi. Yr un oedd y materion a godwyd ganddyn nhw ag a godwyd gan ddefnyddwyr.

Fel rhan o'n hymchwil, aethom ati hefyd i geisio tystiolaeth anecdotaidd am y lefel debygol o ddiddordeb mewn rhentu gofod manwerthu dros dro ymhlith busnesau eraill, yn enwedig busnesau sy'n cychwyn. Mae Antur Teifi yn darparu'r gwasanaeth Benthyciadau Dechrau Busnes ar ran y Cwmni Benthyciadau Dechrau Busnes. Mae'r gwasanaeth yn cael ymholiadau'n rheolaidd gan gwmnïau newydd sydd am sefydlu busnes manwerthu newydd. Rhaid i ymgeiswyr ddangos eu bod wedi sicrhau cytundeb prydlesu amodol gyda landlord. Gan ddiystyru'r ffaith fod yr amodau'n pennu bod angen prydles 12 mis cyn y gellir cynnig Benthyciad Dechrau Busnes, mae tystiolaeth i ddangos y byddai'r entrepreneuriaid dan sylw yn elwa o allu cytuno i delerau prydlesu byrrach yn y lle cyntaf er mwyn gallu profi dichonolrwydd eu cynnig manwerthu gyda llai o risg. Nid oedd hyd a lled yr astudiaeth hon yn ein galluogi i fesur y galw posibl o'r sector hwn, y tu hwnt i'r dystiolaeth anecdotaidd.

Mae'r rhain a'r canfyddiadau eraill o'r ymgynghoriad â Busnesau wedi'u nodi'n llawnach yn Atodiad B.

6. Canfyddiadau – Y model sy'n cael ei ffafrio ar gyfer cynllun siopau gwib

6.1. Sgôr gymharol yr opsiynau yng Nghynllun Siopau gwib Sir Gaerfyrddin Wledig

Yn dilyn yr ymchwiliad cynradd i ganfod modelau posibl o siopau gwib y gellid eu haddasu ar gyfer Sir Gaerfyrddin wledig a'r diwrnodau ymgynghori a gynhaliwyd wedyn yn y chwe thref a nodwyd fel rhai i'w hystyried, mae'r ymatebion wedi cael eu cofnodi a'u dadansoddi, a nodwyd y modelau mwyaf addas.

O'r wybodaeth honno, mae pedwar opsiwn wedi dod i'r amlwg fel rhai i'w hystyried – mae i bob un lefelau gwahanol o ofynion o ran ymwneud rhanddeiliaid ac ariannu posibl.

Opsiw A - Cynllun i Sir Gaerfyrddin Gyfan

Opsiw A seiliwyd ar greu cynllun wedi'i reoli, yn darparu manau siopau gwib yn y 6 thref wledig ar gyfer nifer o ddefnyddiau posibl, yn cynnwys manau manwerthu, arddangos a digwyddiadau / adloniant. Gellid defnyddio'r manau hefyd i hyrwyddo gweithgareddau a chynigion yn y trefi pan na fyddent yn cael eu defnyddio fel gofod manwerthu neu ofod i ddigwyddiadau. Er mwyn llwyddo, byddai angen i'r cynllun ariannu:

- Cymorth gan weinyddwr sy'n cael ei dalu. Byddai'r dyletswyddau'n cynnwys canfod eiddo posibl, trefnu meddiant (yn cynnwys yr agweddau cyfreithiol, ymddangosiad, glanhau), nodi cyfleoedd i ychwanegu gwerth at bob tref unigol a rheoli cystadleuaeth, rheoli archebion a rhenti yn ogystal â marchnata'r cynllun.
- Cyfraniad tuag at sefydlu'r lleoliad yn y lle cyntaf, yn cynnwys gosodiadau a ffitiadau symudol.
- Ystyried unrhyw gyfraniadau tymor penodol/tymor byr eraill e.e. cyfleustodau, rhent.

Opsiw B - Cynlluniau unigol ym mhob un o'r chwe thref

Cynllun lle bydd angen cydweithio rhwng Partneriaethau Tref, Siambrau Masnach neu sefydliadau/unigolion eraill ym mhob tref er mwyn nodi a rheoli cynllun sy'n diwallu anghenion y dref unigol. Mae'r ymdrech i ddenu pobl i gymryd rhan ac ymroi i'r cynllun yn ffactor allweddol, ynghyd â'r lefel o gymorth ariannol a gâi ei chynnig fel rhan o'r cynllun peilot. Byddai gofyn i'r cyfrifoldeb am weithrediad y cyfleuster ym mhob achos orffwys gyda phartner ym mhob un o'r trefi, felly byddai angen sicrhau perchenogaeth leol.

Opsiwn C - Pecynnau gwybodaeth i landlordiaid

Prosiect i ddarparu gwybodaeth i landlordiaid eiddo mewn trefi sy'n wag ar hyn o bryd, i'w hannog i ystyried manau siopau gwib fel ffordd o wireddu defnydd economaidd i'r manau.

Mae'n debyg yn yr achos hwn y byddai'r cynllun yn cynnwys datblygu pecyn gwybodaeth i landlordiaid, yn cynnwys:

Manteision dod yn rhan o gynllun siopau gwib, yn cynnwys:

- cynyddu nifer yr ymwelwyr,
- cynyddu diddordeb yn yr ardal,
- codi ymwybyddiaeth o'r eiddo sydd ar gael.

Gwybodaeth ynglŷn â chymorth busnes, yn cynnwys

- cynlluniau trethi busnes ar gyfer eiddo gwag (byddai tenantiaethau o fwy na chwe wythnos yn golygu bod landlordiaid yn gymwys i gael cyfnod eithrio o dri mis),
- materion cyfreithiol a thrwyddedu.

Cydweithio a gweithio mewn partneriaeth, yn cynnwys

- cryfhau'r cysylltiadau rhwng y Cyngor, asiantau a landlordiaid

Gallai'r cynllun hefyd ddarparu cyfres o ddigwyddiadau gwybodaeth i landlordiaid a phartion eraill sydd â diddordeb, lle gellid dosbarthu'r pecynnau gwybodaeth.

Opsiwn D - Gwneud dim, ar wahân i ddsbarthu'r adroddiad am y prosiect i randdeiliaid a'r rhai a gymerodd ran yn yr astudiaeth.

Rydym wedi pennu'r meini prawf canlynol y gellir asesu pob un o'r 4 opsiwn yn eu herbyn, yn unol â'u pwysigrwydd i'r prosiect ac i'r partneriaid ariannu:

- Costau sefydlu – wedi'u seilio ar uchafswm sgôr pwysol o 10⁴. Mae i bob opsiwn strwythur costau a gwerth gwahanol o'u cymharu â'i gilydd. Rhoddir sgoriau is i gostau uwch oherwydd gallai fod goblygiadau i hynny o ran y gallu i wireddu prosiect llwyddiannus.
- Cynaliadwyedd – (uchafswm sgôr pwysol o 10). Mae hyn yn golygu'r tebygolrwydd y caiff y cynllun eu symud ymlaen ac y bydd yn goroesi yn y tymor hir.
- Pa mor ddeniadol yw i'w cyhoedd – (uchafswm sgôr pwysol o 15) – mae hwn yn ffactor pwysig gan fod busnesau ym mhob un o'r trefi yn credu mai hwn yw'r budd unigol pwysicaf a allai ddeillio o'r cynllun.
- Eiddo addas (uchafswm sgôr pwysol o 5) – A yw'n debygol y bydd eiddo addas ar gael yn gefn i'r cynllun.
- Gallu i gefnogi a chryfhau busnesau presennol (uchafswm sgôr pwysol o 10) – un o ganlyniadau allweddol y cynllun fyddai'r gallu i gael effaith gadarnhaol ar fusnesau sy'n defnyddio'r manau siopau gwib.
- Lefel y gefnogaeth ymysg manwerthwyr / partneriaid lleol presennol (uchafswm sgôr pwysol o 10) – effeithir yn rhannol o leiaf ar gynaliadwyedd tymor hir y prosiect gan y gefnogaeth a roddir i'r cynllun gan fusnesau a phartneriaid presennol yn y dref.
- Gallu i ddenu busnesau i siopau gwib – (uchafswm sgôr pwysol o 10) – un o'r ffactorau fydd yn pennu llwyddiant cynllun siopau gwib yw'r gallu i ddenu busnesau newydd sy'n ddeniadol i ymwelwyr â'r trefi.
- Potensial i gydweithio (uchafswm sgôr pwysol o 5) – un sgil effaith posibl o'r prosiect fyddai gallu i gyflawni yn erbyn amcanion sector cyhoeddus neu amcanion ariannu eraill. Er nad dyna brif nod y prosiect, gallai serch hynny ddarparu budd.

⁴ Caiff uchafswm sgôr pwysol ei roi o ystyried pwysigrwydd cymharol y ffactorau i'r prosiect – h.y. fel esiampl, mae'r tebygolrwydd o ddenu pobl i'r dref yn bwysicach mewn termau cymharol na ffactorau eraill, felly rhoir uchafswm sgôr pwysol uwch i'r ffactor hwn nag i ffactorau eraill.

6.2. Matrics sgorio

	Costau sefydlu (Dim costau / costau isel iawn = 10)	Cynaliadwyedd	Pa mor ddeniadol yw i'r cyhoedd	Addasrwydd Eiddo	Gallu i gefnogi a chryfhau busnesau presennol	Lefel y gefnogaeth ymysg manwerthw yr presennol	Gallu i ddenu busnesau	Potensial i gydweithio â phrosiectau eraill	Cyfanswm
Uchaf. sgôr	10	10	15	5	10	10	10	5	75
Opsion A:									
Sir Gaerfyrddin Gyfan	5	5	12	4	8	8	7	5	54
Opsion B:									
Cynlluniau i drefi unigol	7	6	10	4	7	6	6	3	49
Opsion C:									
Pecyn gwybodaeth i landlordiaid	9	7	8	4	6	6	5	3	47
Opsion D:									
Gwneud dim	10	10	1	4	1	1	1	1	31

6.3 Incwm a gwariant dros dro – Opsion A

	BI 1	BI 2	BI 3	BI 4	BI 5
Incwm					
Rhent - 6 eiddo	£36,000	£39,600.0	£43,560.0	£47,916.0	£52,707.6
Incwm gweithgareddau eraill	10,000	£15,000	£20,000	£25,000	£25,000
Cyfanswm	£46,000	£54,600	£63,560	£72,916	£77,708
Gwariant					
Rhent	£48,000	£48,000	£48,000	£48,000	£48,000
Costau Cyfalaf	£30,000	£6,000	£6,000	£6,000	£6,000
Staffio – Cydlynu	£60,000	£35,000	£35,700.00	£36,414.00	£37,142.28
Ardrethi	£20,000	£20,000	£20,000	£20,000	£20,000
Gwres, golau a dŵr	£7,200	£7,200	£7,200	£7,200	£7,200
Yswiriant	£12,000	£12,000	£12,000	£12,000	£12,000
Costau Marchnata	£25,000	£15,000	£15,000	£15,000	£15,000
Teithio a Chynhaleaeth	£5,000	£5,000	£5,000	£5,000	£5,000
Cyfanswm	£207,200	£148,200	£148,900	£149,614	£150,342
Bwlch dros dro	£161,200	£93,600	£85,340	£76,698	£72,635
Deiliadaeth darged	60%	75%	80%	80%	80%
Costau wythnosol	£3,984.62	£2,850.00	£2,863.46	£2,877.19	£2,891.20
Costau wythnosol fesul siop	£664.10	£475.00	£477.24	£479.53	£481.87
Cost ddyddiol	£110.68	£79.17	£79.54	£79.92	£80.31
Cost ddyddiol gan ystyried deiliadaeth	£184.47	£105.56	£99.43	£99.90	£100.39

Rhagdybiaethau:

Incwm rhent - £500 y mis ar gyfartaledd ar gyfer y 6 lleoliad (lle cânt eu defnyddio at ddiben manwerthu tymor byr). Mae'r cynnydd o flwyddyn i flwyddyn i ganiatáu ar gyfer chwyddiant yn hytrach na mwy o weithgarwch.

Gweithgarwch arall - Cododd yr ymgynghoriad nifer o syniadau ar gyfer gweithgareddau eraill a allai fod yn addas ar gyfer llecyn gwib – e.e. prosiectau'r celfyddydau, sinema gwib. Aiff cryn amser i lansio hyn yn iawn gan ei fod yn gysyniad newydd, felly rhagwelir incwm cymharol isel i ddechrau, a fydd yn tyfu ar gyfradd uwch nag incwm rhent, wrth i fwy o fusnesau a sefydliadau weld y cyfleoedd y mae'n eu darparu.

Gellir clustnodi incwm arall os oes modd defnyddio'r llecyn at ddibenion ehangach, e.e. hyrwyddo digwyddiadau / busnesau yn y dref, pan na chaiff ei ddefnyddio fel cyfleuster manwerthu.

Yswiriant. Bydd costau yswiriant yn uwch nag ar gyfer busnesau manwerthu arferol gan fod rhai risgiau ychwanegol i yswirwyr yn sgil y ffaith y bydd cyd-ddefnydd yn cael ei wneud o'r llecyn.

Costau Marchnata. Gallai'r swm hwn fod yn uwch, gan y bydd angen gwneud ymdrech i sicrhau bod busnesau a defnyddwyr fel ei gilydd yn ymwybodol o'r fenter, ac yn cael eu perswadio i gefnogi'r fenter gobeithio.

Gwariant

Rhent. Gwneir rhagdybiaeth y bydd y corff sy'n gyfrifol am weithredu'r fenter yn ymrwymo i osod 6 eiddo ar rent – 1 ym mhob un o'r trefi – yn flynyddol o leiaf. Rhagdybir y bydd y rhent blynyddol cyfartalog am yr eiddo yn £8000 – gan ganiatáu ar gyfer mwy mewn rhai lleoliadau a llai mewn rhai eraill – yn dibynnu ar faint a lleoliad.

Costau Cyfalaf. Rhagwelir y bydd yr eiddo yn addas i'r diben ac mai ychydig iawn o fuddsoddiad fydd angen ei wneud ynddynt. Fodd bynnag, bydd yn rhaid buddsoddi rhywfaint yn y gosodiadau, ffitiadau, arwyddion ac ati y bydd eu hangen.

Staffio – Cydlynu. Rydym wedi gwneud rhagdybiaeth y bydd angen dau aelod o staff cyfwerth ag amser llawn i ddechrau, er mwyn helpu i gael y fenter ar ei thraed. Bydd llawer o waith yn y flwyddyn gyntaf, gan gynnwys y trefniadau ymarferol ar gyfer gosod a pharatoi'r eiddo a hyrwyddo'r cysyniad i fusnesau a'r cyhoedd, er mwyn rhoi pob cyfle posibl i'r fenter lwyddo. Bydd angen i'r staff feddu ar gymhelliant a phrofiad. Rydym wedi lleihau'r gofyniad staffio yn yr ail flwyddyn, gan ei bod yn annhebygol y gellir cynnal y lefel honno, a byddem yn dadlau y bydd y llwyth gwaith yn llai gan y bydd y fenter yn weithredol erbyn hynny.

Ardrethi. Mae'n anodd amcangyfrif yn gywir y gyfradd atebolrwydd, gan y bydd yn dibynnu ar ddefnydd, pwy sy'n defnyddio'r cyfleuster a sut y byddai perchnogaeth a strwythur rheoli y siop wib yn cael eu trin at ddibenion ardrethi. Rydym wedi rhoi cyfanswm tybiedig o £20,000 ar gyfer ardrethi.

Cost ddyddiol

Hefyd, mae'r strwythur costau amcangyfrifedig wedi cael ei ddadansoddi yn ôl y gost gyfartalog fesul diwrnod defnyddiadwy (tybir bod hyn yn 6 diwrnod yr wythnos). Amcangyfrifir mai'r gost gyfartalog fesul diwrnod y byddai angen ei thalu i wneud i hyn weithio'n fasnachol, heb ymyrraeth gan y sector cyhoeddus fyddai tua £100 y diwrnod ar gyfartaledd ar ôl blwyddyn 1 (a fyddai'n ddigon i dalu am y costau sefydlu ac ati). Er bod hyn yn unol â chyfraddau'r farchnad mewn rhannau eraill o'r DU, o ystyried bod nifer yr ymwelwyr yn is, mae'r cyfraddau'n annhebygol o ddenu digon o fusnesau i ddefnyddio'r llecynnau a chyrraedd y ddeiliadaeth darged. Mae'r risgiau sy'n gysylltiedig â llwyddo heb ymyrraeth allanol yn uchel felly.

7. Casgliadau

7.1. Gwersi gan fentrau eraill

Mae siopau neu lecynnau gwib yn dod yn nodwedd amlycach mewn trefi a dinasoedd ledled y DU. Maent yn ychwanegu amrywiaeth at drefi; maent yn darparu cyfleoedd i fusnesau newydd brawf fasnachu; maent yn darparu cyfleoedd i fanwerthwyr presennol brawf fasnachu cynhyrchion newydd a ffurfiau newydd ar siopau.

Mae diwydiant wedi dod i'r amlwg sydd wedi'i seilio ar gefnogi'r cysyniad – mae busnesau megis Appear Here yn fusnesau cychwynol cymharol newydd sy'n canolbwyntio ar wasanaethu'r sector gwib.

Mae siopwyr mewn dinasoedd wedi dod i arfer â gweld a defnyddio llecynnau gwib ac maent yn eu deall ac yn eu croesawu.

Nid yw llecynnau gwib yn cael eu gweld na'u defnyddio mor aml mewn trefi gwledig. Rydym wedi amlygu nifer o fentrau mewn lleoliadau gwledig. Bu rhai'n llwyddiannus yn yr ystyr eu bod wedi gallu bod yn gynaliadwy i raddau – er eu bod yn aml yn dibynnu ar arian cyhoeddus allanol i sefydlu ar y dechrau.

Mae rhai o'r mentrau gwib hyn wedi wynebu heriau lawer, yn cynnwys ymgysylltu â busnesau presennol yn y trefi a sicrhau llif rheolaidd o denantiaid. Mae mentrau yn gweithio orau lle ceir partneriaeth glir gyda'r holl bartïon â diddordeb a lle ceir nod cyffredin. Mewn llawer o achosion y bu inni eu harchwilio, roedd y rhai oedd yn ymwneud â rhedeg y fenter yn cydnabod na allai siopau gwib yn unig ddatrys yr holl broblemau roedd tref neu ei busnesau'n eu hwynebu.

7.2. Y profiad yn Sir Gaerfyrddin

7.2.1. Amrywiaeth o siopau

Roedd busnesau a siopwyr fel ei gilydd yn cydnabod bod angen gweithredu ym mhob un o'r chwe thref i sicrhau eu bod yn hyfyw yn y dyfodol. Yn gyffredinol roedd busnesau'n credu bod y trefi'n dawelwch ac felly roedd yn anos cynnal busnesau llewyrchus ynddynt. Roedd siopwyr yn gyffredinol yn teimlo nad oedd yr amrywiaeth o siopau yn ddigon eang yn y trefi, a'u bod yn cael eu denu i'r trefi a'r dinasoedd mwyaf i fanteisio ar yr amrywiaeth ehangach oedd ar gael.

Roedd pobl yn deall bod hwn yn fater dyrys, gan y byddai'n amhosibl cynnig yr ystod lawn o siopau a fyddai'n diwallu anghenion pob siopwr.

Roedd llawer yn cytuno y gallai siopau gwib fod yn rhan o'r ateb o ran galluogi trefi i gynnig amrywiaeth. Yn yr un modd roedd busnesau'n teimlo y byddai cael mynediad i gyfleuster o'r fath yn rhoi cyfle i brawf fasnachu; y byddai'n ychwanegu amrywiaeth at y dref ac y gallai ddenu mwy o bobl i'r dref – amcan y gallai pob busnes ei gefnogi.

7.2.2. Materion eraill

Ym mhob un o'r trefi lle cynhaliwyd yr ymchwil, roedd cyfres o amgylchiadau neu faterion yn bodoli a oedd, ym marn y bobl, yn rhwystru'r trefi rhag cyrraedd eu potensial fel trefi gwledig bywiog. Amlinellir y materion yn yr adroddiad hwn, ac maent yn cynnwys problemau parcio a diffyg parcio am ddim, oriau agor a llai o gyfleusterau gwasanaethau ariannol.

7.2.3. Brand / ffocws trefi.

O gofio y bydd yn amhosibl i bob tref unigol, hyd yn oed gyda chymorth menter wib, gynnig amrywiaeth helaeth iawn o siopau i siopwyr (ac eithrio Caerfyrddin o bosibl), er mwyn mynd i'r afael ag anghenion pob tref bydd yn rhaid i'r busnesau a'r sefydliadau mwyaf blaenllaw yn y trefi ddod at ei gilydd i gytuno ar strategaeth glir ar gyfer datblygu. Byddai hyn yn cynnwys rhoi ystyriaeth i frand y dref – beth y mae'n ei gynrychioli; pwy yw ei chynulleidfa darged allweddol; pa ddigwyddiadau a gweithgareddau fyddai'n dod â nhw i'r dref a pha gyfleoedd manwerthu a gwasanaeth mae hyn yn ei gynrychioli.

Mae gan bob un o'r trefi rydym wedi cynnal ymchwil ynddynt ymdeimlad dwfn o dreftadaeth. Hefyd mae gan bob un amrywiaeth o fusnesau eiconig, ysbrydoledig a llwyddiannus. Mae hyn yn golygu bod ganddynt i gyd gyfle i dyfu a datblygu. Byddai eu datblygiad yn cael ei wella drwy gael eglurder o ran diben, gyda'r holl randdeiliaid yn ymrwymo i'r diben hwnnw.

Byddai'r trefi'n elwa ar gael dull rheoli cyrchfannau, sy'n golygu rhoi rheswm pendant i siopwyr ac ymwelwyr dros ymweld, a hynny wedi'i ategu gan ystod berthnasol o siopau, llefydd bwyta, manau adloniant a gweithgareddau y maent oll yn cefnogi brand y dref.

Yn ddi-os, gallai menter siop wib fod yn elfen bwysig wrth ddatblygu a hyrwyddo brand y dref, ond mae'r fenter ar ei phen ei hun yn annhebygol o fynd i'r afael â'r holl heriau mae'r trefi'n eu hwynebu.

7.3. Opsiynau posibl ar gyfer datblygu menter wib

Gan dderbyn bod diddordeb amlwg mewn gweld llecynnau gwib yn cael eu datblygu a'u defnyddio yn y chwe thref wledig fel rhan o'r angen cyffredinol i weld gwelliannau yn y trefi, ceisiom brofi nifer o fodolau posibl, gan edrych ar eu cyfraniad posibl at gyflawni'r amcanion o ddenu rhagor o bobl i'r trefi a darparu cyfleoedd busnes yn y trefi.

O ganlyniad i'r broses sgorio, daethom i'r casgliad mai menter sir gyfan fyddai'r ffordd orau o geisio cael buddiannau tymor hir i'r trefi. Roedd ein casgliad wedi'i seilio ar ddau ffactor allweddol:

- i. Roedd llawer o'r busnesau a holwyd yn hoffi'r syniad o allu prawf fasnachu eu cynnyrch a'u gwasanaethau mewn trefi gwledig eraill yn Sir Gaerfyrddin – a fyddai'n fwy cyraeddadwy pe bai'r chwe thref yn rhan o'r un fenter.
- i. Gallai'r arbenigedd a'r amser oedd yn ofynnol i ddarparu'r ysgogiad sydd ei angen i roi hwb cychwynnol i'r fenter ym mhob tref gael eu rhannu ar draws y chwe thref drwy ei sefydlu fel un fenter ledled y sir.

Y brif her i'r model a argymhellir yw'r gost gysylltiedig. Ar ôl gosod rhai rhagdybiaethau allweddol o ran incwm a chost, y mae modd eu herio a'u haddasu wrth gwrs, mae'n amhosibl gweld sut y gall y fenter gael ei lansio'n gychwynnol ac yn llwyddiannus heb fuddsoddiad allanol sylweddol (mae'n annhebygol y deuir o hyd i hwn o'r sector preifat o achos lefelau uchel tebygol yr enillion ariannol). Gellir dadlau bod hyn yn cynrychioli methiant yn y farchnad, ac felly wrth gyflwyno'r fenter gellid mynd ati'n deg i geisio arian cyhoeddus i wneud iddo weithio. Serch hynny, byddai heriau o hyd o ran gwneud y fenter yn gynaliadwy yn y tymor hir heb gyllid parhaus. Byddai angen i'r fenter allu cyflawni'r tu hwnt i'r hyn a ddisgwyliid yn y rhagdybiaethau, a hefyd byddai angen i landlordiaid a rhanddeiliaid eraill fod ynghlwm wrth geisio mwyhau'r defnydd o'r llecynnau. Os cânt eu defnyddio'n dda ac i'w llawn botensial, credwn fod tystiolaeth i ddangos sut y gallant wneud cyfraniad cadarnhaol i'r economi. Nid oedd cwmpas yr ymarfer hwn yn cynnwys dadansoddi graddau tebygol y cyfraniad economaidd hwnnw mewn termau ariannol.

8. Y Camau Nesaf

Bydd yr adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r grwpiau cyllido a phartneriaeth perthnasol. Hefyd mae'n bosibl y bydd diddordeb gan fusnesau a rhanddeiliaid eraill mewn edrych ar yr adroddiad ac ystyried neu roi sylwadau ar ei gasgliadau.

Efallai y bydd yr adroddiad yn cael ei ddefnyddio wrth roi rhagor o ystyriaeth i weithgareddau a ariennir yn y dyfodol neu gall gael ei defnyddio fel tystiolaeth i gefnogi mentrau gan sefydliadau eraill.

Rydym yn gobeithio y bydd yr adroddiad yn ddefnyddiol i'r holl rhanddeiliaid wrth ystyried rhai o'r heriau mae'r trefi'n eu hwynebu a beth allai'r atebion posibl fod.

9. Cydnabyddiaeth

Wrth lunio'r adroddiad, hoffem gydnabod cyfraniad nifer o bobl, gan gynnwys:

- Y tîm yng Nghyngor Sir Caerfyrddin
- Gweithgor LEADER Sir Gaerfyrddin
- Rhanddeiliaid ym mhob un o'r trefi am eu cyfraniad
- Landlordiaid pob un o'r lleoliadau lle y cynhaliwyd y digwyddiadau ymgynghori.
- Busnesau ac aelodau o'r cyhoedd a gymerodd ran yn yr ymarfer ymgynghori

Atodiad 1 – canfyddiadau llawn yr ymchwil ar ddefnyddwyr

Atodiad 2 – canfyddiadau llawn o'r arolwg busnes

Atodiad 1:

Astudiaeth ddichonoldeb Menter Siopau Gwib yn Sir Gaerfyrddin: Ymgynghori â Defnyddwyr

Canfyddiadau llawn yr ymarferiad ymgynghori â defnyddwyr a gynhaliwyd mewn chwech o drefi marchnad yn Sir Gaerfyrddin i ddeall effaith bresennol siopau gwag yn y trefi ac archwilio opsiynau i adfywio'r trefi

CANFYDDIADAU LLAWN

Perspectif



1. Trosolwg

Mae'r gwaith ymchwil hwn yn rhan o raglen ehangach o ymchwil ddesg eilaidd ac ymgynghori'n ehangach â rhanddeiliaid, i bennu dichonoldeb menter siopau gwib ledled Sir Gaerfyrddin. Mae'r adroddiad yn cyflwyno canfyddiadau llawn ein hymchwil ymysg defnyddwyr mewn 6 o drefi marchnad (Caerfyrddin, Llandeilo, Llanymddyfri, Castellnewydd Emlyn, Sanclêr a Hendy-gwyn ar Daf) yn Sir Gaerfyrddin ym mis Gorffennaf a mis Medi 2016.

2. Cyflwyniad

Cynhaliwyd cyfanswm o 104 o gyfweiliadau â siopwyr, ymwelwyr a thrigolion ar draws y trefi hyn i ganfod eu hagweddau a'u teimladau tuag at y dref yr oeddynt ynddi, a chanfod a ydynt yn teimlo y byddai menter siopau gwib o fudd i'r dref ac yn helpu i ddenu ymwelwyr ychwanegol. Mae nifer y cyfweiliadau a gynhaliwyd â defnyddwyr ym mhob tref fel a ganlyn:

- 23 o gyfweiliadau wedi'u cynnal ag ymwelwyr yn nhref Llandeilo
- 21 ag ymwelwyr yng nghanol tref Caerfyrddin
- 18 ag ymwelwyr yng Nghastellnewydd Emlyn
- 9 â phobl yn Llanymddyfri
- 11 â phobl yn ymweld â Sanclêr
- 22 o gyfweiliadau wedi'u cwblhau yn Hendy-gwyn ar Daf¹

¹ Mae'r is-setiau yn y trefi unigol yn rhy fach i fod yn ystadegol ddilys, ond y maent yn cynnig rhai elfennau diddorol o ddealltwriaeth y gallai fod yn fuddiol eu hystyried ymhellach er mwyn canfod p'un a ydynt yn wir ymysg sampl ehangach o'r boblogaeth.

3. Crynodeb o'r canfyddiadau

3.1 Proffil yr ymatebwyr

Mae 82% o'r ymatebwyr yn lleol i'r dref y'u cyfwelwyd ynddi.

Menywod yw 65% o'r ymatebwyr, ac mae 44% dros 60 oed, gan amlygu bod proffil y rhai sy'n defnyddio'r trefi yn ystod diwrnodau'r wythnos rywfaint yn wahanol i boblogaeth gyffredinol y trefi (o ystyried bod cyfartaledd cyfran y rhai sydd yn 60 oed neu'n hŷn yn amrywio o 24.5% yng Nghaerfyrddin i 34% yn Llanymddyfri).

Mae mwy na hanner (53.9%) yn gweithio (gan gynnwys yn rhan amser a hunangyflogedig), a 34% wedi ymddeol.

3.2 Arferion ac ymddygiad siopa

Mae 69% o'r holl ymatebwyr yn ymweld â'u tref farchnad leol o leiaf ddwywaith yr wythnos, gyda'r gyfran uchaf yn dweud nad oes diwrnod (68%) nac amser (52%) penodol i'w hymweliadau.

Mae'r gyfran uchaf yn dweud eu bod yn ymweld â'r dref er mwyn mynd i siopa (68.6%), gydag ychydig dros draean yn dweud eu bod yn y dre er mwyn defnyddio gwasanaethau iechyd. Mae'r rhesymau poblogaidd eraill dros ymweld â'r dref yn cynnwys:

- Cael pryd o fwyd / bwyta mas (34%)
- Cael golwg o amgylch y lle (27.5%)
- Defnyddio gwasanaethau eraill megis swyddfeydd post ac ati (26.5%)
- Ymweld / cwrdd â ffrindiau neu berthnasau (26.5%)

Medd 36% mai eu prif reswm dros fod yn y dref y diwrnod hwnnw oedd mynd i siopa.

Medd 57% eu bod yn dueddol o wneud yr un pethau ac ymweld â'r un siopau pryd bynnag y maent yn y dref, gan amlygu'r ffaith bod ymwelwyr â'r dref yn dueddol o fod, o ran natur, yn dilyn arferion. Gallai hyn awgrymu amharodrwydd i wneud / rhoi cynnig ar bethau newydd neu gallai fod yn adlewyrchiad o natur gynhenid y trefi.

Medd 65% mai ar lafar y maent yn dueddol o ddod i wybod am bethau sy'n digwydd yn y dref. Mae posteri (46%), y wasg leol (32%) a'r cyfryngau cymdeithasol (32%) hefyd yn ffynonellau gwybodaeth poblogaidd.

Medd 7 ym mhob 10 o'r ymatebwyr y gallent gael eu hannog i ymweld â'r dref yn amlach. Medd y gyfran uchaf o'r ymatebwyr y byddai'r ffactorau a fyddai'n debygol o'u hannog i ymweld yn amlach yn cynnwys gwelliannau i amrywiaeth y siopau, rhagor o weithgareddau / digwyddiadau, cyfleusterau parcio ac adloniant.

3.3 Ynglŷn â'ch tref

Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr yn ymddangos yn gyffredinol hapus ynglŷn â lefel y ddarpariaeth bwyd a diod yn eu trefi, gydag o leiaf hanner y rhai a gyfwelwyd yn dweud bod tua'r nifer iawn o siopau cyfleustra, archfarchnadoedd, siopau coffi a chaffis bach, tafarndai a bariau, siopau brechdanau / cinio a siopau tecawê. Ceir awgrym cyffredinol y gallai'r dref wneud y tro â rhagor o delis / siopau bwyd arbenigol (54%) a bwytai (48%).

O ran manwerthu a darpariaeth diwylliant a hamdden, teimla cyfran ychydig yn uwch y gallai'r meysydd hyn gael eu gwella yn eu trefi.

3.4 Menter siopau gwib

Yn gyffredinol, roedd y defnyddwyr yn gefnogol o'r syniad o fenter siopau gwib, gyda 85% yn cytuno (63%) neu'n cytuno'n gryf (22%) â'r gosodiad:

“Rwy'n credu y byddai menter siopau gwib yn fuddiol i drefi gwledig Sir Gaerfyrddin yn y tymor hir”

Roedd mwy nag 8 ym mhob 10 o'r ymatebwyr hefyd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r gosodiadau canlynol:

- Mae 90% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r gosodiad hwn:
“Mae siopau gwib yn cynnig cyfleoedd i amrywiaeth eang o sefydliadau a busnesau, nid siopau manwerthu yn unig, e.e. ar gyfer arddangosfeydd celf, gwasanaethau ariannol neu iechyd a gwybodaeth i'r cyhoedd”
- Mae 89% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r gosodiad hwn:
“Mae gofodau gwib yn darparu cyfle i bob math o fusnesau a sefydliadau dreialu cynnyrch, gwasanaethau a marchnadoedd newydd a hynny ar risg isel”
- Roedd 83% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r gosodiad hwn:
“Byddai siopau gwib yn helpu i ddenu rhagor o bobl i mewn i'r dref”

4. Canfyddiadau Llawn

4.1 proffil yr ymatebwyr

4.1.1 tarddiad daearyddol

- Mae 82% o'r ymatebwyr yn lleol i'r dref y maent yn ymweld â hi, ond roedd rhai ymatebwyr yn ymweld â'r ardal ac yn dod o leoedd mor bell â Peterborough a gogledd-orllewin Lloegr.

Mae'r map gwres isod yn dangos y daw dwysedd uchel yr ymatebwyr o'r ardaloedd yn union o amgylch pob tref farchnad lle y cynhaliwyd yr ymgynghoriad:



4.1.2 Rhyw

Menywod yw dau draean yr ymatebwyr (65%)

4.1.3 Proffil Oedran

Mae 44% o'r ymatebwyr dros 60 oed, 42% rhwng 45 a 59 oed. 15% rhwng 16 a 44 oed, a dim ond 1% o'r ymatebwyr rhwng 20 a 29 oed.

4.1.4 Statws Cyflogaeth

Mae 54% o'r ymatebwyr yn gweithio (yn cynnwys y rhai sy'n hunangyflogedig, mewn swyddi rhan amser ac amser llawn).

Mae traean yr ymatebwyr wedi ymddeol, gyda gweddill yr ymatebwyr naill ai'n gofalu am y cartref, yn astudio neu'n ddi-waith.

4.2 Arferion ac ymddygiad siopa

4.2.1 Amllder ymweld â threfi


Mae mwyafrif yr ymatebwyr yn ymweld â'u tref farchnad leol yn aml iawn, gyda dau draean (66%) yn ymweld o leiaf ddwywaith yr wythnos. Medd 16% o'r holl ymatebwyr eu bod yn ymweld â'r dref yn llai aml nag unwaith y mis (ond ymweld yn unig, neu heb ystyried eu hunain yn lleol i'r dref, oedd tri chwarter yr ymatebwyr hyn).

Mae dadansoddiad llawn o'r canlyniadau i'w gweld isod:


Menywod 65%

Dynion 35%


Proffil Oedran



Statws Cyflogaeth




Pa mor aml ydych yn ymweld â'r dref hon?




4.2.2 Pryd ydych yn ymweld â'ch tref farchnad leol?

Gofynnwyd i'r ymatebwyr p'un a oes unrhyw ddiwrnodau penodol o'r wythnos ac amserau'r dydd y maent fel arfer yn ymweld â'r dref.

Roedd mwy na dau draean (69%) yn dweud nad ydynt yn ymweld â'r dref ar ddiwrnodau penodol. Nodir wedyn bod yr ymatebwyr yn fwyaf tebygol o ymweld â'r dref ar ddydd Gwener a dydd Sadwrn (17.7% a 15.6% o'r ymatebwyr yn eu trefn).




Onid wrth ddadansoddi fesul tref farchnad, daw rhywfaint o wahaniaeth nodedig i'r amlwg, ac mae'n bosibl y gellir priodoli'r rhain i weithgareddau penodol sy'n digwydd yn y trefi ar y diwrnodau hynny. Er enghraifft, mae 44% o'r ymatebwyr yng Nghastellnewydd Emlyn yn dweud eu bod yn ymweld â'r dref ar ddydd Gwener, sef diwrnod y Farchnad Wledig. Ond i fwyafrif yr ymatebwyr, nid ydynt yn dod i'r dref ar ddiwrnod penodol, ac mae hyn yn fwyaf amlwg ymysg ymatebwyr yn Sanclêr a Hendy-gwyn ar Daf.




4.2.3 Hyd ac adeg yr arhosiad

Medd cyfran uchaf yr ymatebwyr (42%) eu bod fel arfer yn treulio rhwng 1 awr a 2 awr yn y dref, ac medd 30% eu bod yn treulio llai nag 1 awr.

Er bod y canfyddiadau, o'u dadansoddi fesul tref, yn rhy fach i fod yn ystadegol ddilys, medd cyfrannau uwch o'r ymatebwyr yng Nghaerfyrddin eu bod yn treulio rhwng 3 awr a 7 awr yn y dref (33%) nag yn y trefi eraill. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod mwy i'w wneud yng Nghaerfyrddin a bod ymatebwyr hefyd yn fwy tebygol o fod yn gweithio yn y dref.




Medd ychydig dros hanner yr ymatebwyr (51.5%) bod adeg y dydd y maent yn ymweld â'r dref yn amrywio, ac medd 32.3% pellach mai yn y bore y mae'n well ganddynt ymweld. 5% yn unig o'r ymatebwyr sy'n dweud eu bod yn dueddol o ymweld gyda'r nos.



4.2.4 Rhesymau dros ymweld

Medd yr ymatebwyr yn gyffredinol eu bod yn dueddol o wneud yr un peth ac ymweld â'r un siopau pryd bynnag y maent yn y dref. Medd 57% o'r ymatebwyr mai dyma'r gosodiad sy'n gweddu orau iddynt, ac medd 26% eu bod yn bennaf yn gwneud yr un math o bethau yn y dref, ond weithiau eu bod yn dod i mewn am resymau gwahanol. Llai nag 1 ym mhob 5 (18%) a ddwed eu bod yn gwneud amrywiaeth o bethau gwahanol bob tro y maent yn dod i mewn i'r dref.




Wrth ddadansoddi ymhellach, gwelir bod ymatebwyr yn Llandeilo a Chastellnewydd Emlyn (32% a 33% yn eu trefn) ychydig yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn bennaf yn gwneud yr un mathau o bethau yn y dref o gymharu â 26% yn gyffredinol.

Mae hyn yn awgrymu bod natur ychydig bach yn llai cyson i'w hymweliadau nag yn y trefi eraill, ac er nad yw hyn yn ganfyddiad sy'n ystadegol ddilys, gallai awgrymu bod rhywfaint o debygrwydd yn agweddau ymwelwyr y ddwy dref hon yn ogystal â thebygrwydd rhwng y trefi eu hunain.

Mae hyn i'w weld yn benodol wrth gymharu'r ymatebion o Lanymddyfri a Hendy-gwyn ar Daf lle medd 78% a 72% yn eu trefn eu bod yn dueddol o wneud yr un pethau ac ymweld â'r un siopau pryd bynnag y maent yn y dref.

Siopa yw'r rheswm mwyaf poblogaidd dros ymweld â'r trefi, gyda 69% o'r holl ymwelwyr yn dweud bod hynny'n un o'u rhesymau dros ymweld â'r dref ar ddiwrnod y cyfweiliad, a 36% yn dweud mai dyma eu prif reswm dros ymweld.

Roedd ychydig o ymwelwyr yn dweud eu bod yn ymweld â'r dref er mwyn manteisio ar wasanaethau proffesiynol megis cyfreithwyr neu gyfrifyddion, eu bod yno ar fusnes neu i fwynhau adloniant neu'r celfyddydau:




Medd mwy nag 8 ym mhob 10 o'r ymatebwyr yng Nghaerfyrddin, Lanymddyfri, Castellnewydd Emlyn a Hendy-gwyn ar Daf mai siopa oedd un o'u prif resymau dros fod yn y dref. Ond i'r rhai yn Sanclêr a Llandeilo, roedd cyfraddau llawer llai o'r ymatebwyr yn ymweld er mwyn siopa (tua 3 ym mhob 10 o'r ymatebwyr).

Mae'r canfyddiadau hyn yn gyffredinol yn awgrymu bod y trefi marchnad yn sicr y math o le y mae trigolion yn galw i mewn yn rheolaidd i brynu hanfodion a chael negesau bach yn hytrach na'r math o le y maent yn dod iddo i dreulio amser hamdden sy'n gynyddol brin.

Gofynnwyd i'r ymatebwyr hefyd p'un a oes unrhyw beth a fyddai'n eu hannog i ymweld â'r dref yn amlach. Meddai 71% ohonynt y gallent gael eu hannog i ymweld yn amlach. O'r ymatebwyr hyn, teimlai'r gyfran uchaf (55%) y byddai rhagor o weithgareddau / digwyddiadau yn eu hannog i ymweld yn amlach, a nododd 51% bod amrywiaeth ehangach o siopau, a gwell cyfleusterau parcio (44%) yn ffactorau pwysig i annog rhagor o ymweliadau.

Beth fyddai'n eich annog i ymweld â'r dref yn amlach?



Roedd y sylwadau eraill a wnaed gan ymatebwyr yn cynnwys parcio (am ddim am hyd at 30 munud – 1 awr), mathau penodol o siopau e.e. siop esgidiau, oriau agor y siopau, cyfleusterau bancio.




4.3 Ynglŷn â'ch tref

4.3.1 Ffynonellau gwybodaeth

Gofynnwyd i'r ymatebwyr sut maent yn dueddol o glywed am bethau sy'n digwydd yn eu tref. Mae ar lafar yn ffordd hynod bwysig, gyda rhyw ddau draean (65%) yn dweud eu bod yn dueddol o glywed am beth sy'n digwydd gan eraill. Dwed bron i hanner (46%) eu bod yn clywed am beth sy'n digwydd drwy bosteri ac mae 32% yn cael gwybodaeth drwy'r cyfryngau cymdeithasol a'r wasg leol.


Sut ydych yn clywed am beth sy'n digwydd yn y Dref?



4.3.2 Darpariaeth manwerthu

Gofynnwyd i'r ymatebwyr nodi p'un a oedd ar y dref angen rhagor neu lai o amrywiaeth o wahanol siopau a chyfleusterau yn y dref neu a oedd tua'r lefel iawn.

Mae cyfran ychydig yn uwch yn teimlo y gellid gwella'r hyn sydd gan eu tref i'w gynnig o ran manwerthu, gyda siopau dillad (70%), cyflenwadau celf a chrefft (52%), nwyddau haearn a nwyddau i'r tŷ (57%) yn cael eu nodi'n benodol gan yr ymatebwyr fel siopau a allai fod yn ychwanegiad da i'w trefi.




Nododd nifer o ymatebwyr fathau “eraill” o siopau manwerthu yr hoffent weld yn eu trefi, gan gynnwys pethau fel siopau esgidiau, siopau llyfrau a siopau dillad.

4.3.3 Darpariaeth bwyd a diod

Gofynnwyd yr un cwestiwn wedyn i'r ymatebwyr ynglŷn â mathau gwahanol o ddarpariaeth bwyd a diod yn eu tref. Yn gyffredinol, mae'r ymatebwyr yn ymddangos yn go hapus â'r amrywiaeth o leoedd bwyd yn eu trefi, er bod tua hanner yr ymatebwyr yn teimlo y gallai eu tref wneud y tro â rhagor o delis / siopau bwyd arbenigol a bwytai:


Mae'r mathau eraill o leoedd bwyd a diod a nodwyd gan yr ymatebwyr yn cynnwys cwrw / bragdai, groser a siopau arbenigol gan gynnwys llysieuol a di-glwten.



4.3.4 Darpariaeth diwylliant a hamdden

Yn gyffredinol, mae mwy na hanner yr ymatebwyr yn teimlo y gallai fod mwy o ddarpariaeth diwylliant a hamdden yn eu tref, ar wahân i siopau betio yn unig. Dim ond 8% o'r holl ymatebwyr a deimlai y gallai'r dref gael ei gwella drwy ychwanegu siop fetio. Nid oedd siop fetio yn nifer o'r trefi, a nodai'r ymatebwyr eu bod yn dymuno cadw at hynny drwy ddweud bod y ddarpariaeth bresennol tua'r lefel iawn, hynny yw DIM.

Gweithgareddau hamdden (59%), gofod theatr a sinema (56%) a chyfleusterau chwaraeon (53%) yw'r meysydd lle mae pobl yn teimlo gryfaf y gellid gwella'r ddarpariaeth yn eu tref:




Mae sylwadau eraill ynglŷn â darpariaeth hamdden yn y dref yn cynnwys galwadau am lawer yn rhagor o ddigwyddiadau a gweithgareddau i'r teulu megis gŵyl fwyd Arberth. Noda un ymatebydd mai buddiol fyddai cael rhagor o fannau i'r gymuned ddod ynghyd, ac meddai eraill bod angen diogelu'r ganolfan hamdden a sicrhau bod cludiant ar gael i fynd iddo.

4.3.5 Darpariaeth gwasanaethau eraill

Yn gyffredinol, mae'r ymatebwyr yn hapus iawn â lefel y ddarpariaeth o fathau eraill o wasanaethau yn eu tref, gyda'r mwyafrif yn dweud bod pethau'n iawn fel ag y maent, ar wahân i wasanaethau ariannol, wrth i 6 ym mhob 10 o'r ymatebwyr ddweud bod angen rhagor.

Cafodd y trefi hyn eu taro'n enfawr wrth golli banciau, ac yn anecdotaidd sonia'r ymatebwyr am wahaniaethau amlwg yn nifer yr ymwelwyr wrth i gyfleusterau bancio gau. Er bod y rhan fwyaf yn sylweddoli nad oes llawer o obaith o ddenu banciau yn ôl i'r trefi hyn, y mae'n codi cwestiwn p'un a oes modd defnyddio model bancio gwahanol a fyddai'n darparu amrywiaeth o wasanaethau i bobl leol ar gost isel i bob banc.



Cyfeiria'r ymatebwyr hynny sy'n teimlo bod angen rhagor o wasanaethau "eraill" yn eu tref at ddeintyddion a banciau.

4.4 Menter Siopau Gwib

4.4.1 Agweddau tuag at fenter siopau gwib

Yn gyffredinol, roedd defnyddwyr yn y trefi gwledig yn gefnogol i fenter siopau gwib, gyda'r mwyafrif llethol yn teimlo y gallent fod o fudd i'r trefi drwy ddenu rhagor o bobl a datblygu busnesau newydd a chyffrous.

Gofynnwyd i'r rhai a gyfwelwyd ymateb i gyfres o osodiadau cysyniadol ynglŷn â siopau gwib a'r goblygiadau tebygol fyddai i ddod â siopau gwib i'w tref:

- Mae 89% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r gosodiad hwn:
“Mae gofodau gwib yn cynnig cyfle i bob math o fusnesau a sefydliadau dreialu cynnyrch, gwasanaethau a marchnadoedd newydd a hynny ar risg isel”

Mae hyn yn pwysleisio'r ffaith bod llawer o'r farn bod menter bosibl yn rhywbeth a allai fod yn fuddiol i fusnesau newydd a busnesau presennol, a bywiogi ychydig ar y dref.

- Mae 85% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r gosodiad hwn:
“Byddai menter siopau gwib yn fuddiol i drefi gwledig Sir Gaerfyrddin yn y tymor hir”


Mae hyn yn awgrymu bod y defnyddwyr yn ystyried nad cysyniad tymor byr a fydd wedi diflannu mewn dim o dro fyddai menter o'r fath, ac y byddai yn hytrach yn rhywbeth a all ddenu busnesau newydd yn y tymor hir a helpu i feithrin twf a llwyddiant busnesau.

- Mae 83% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r gosodiad hwn:
“Byddai siopau gwib yn helpu i ddenu rhagor o bobl i mewn i'r dref”

Mae pobl yn ystyried siopau gwib yn gyfle i ddenu rhagor o bobl i mewn i'r dref. Ond dylid nodi bod angen i unrhyw fenter siopau gwib gydnabod cyfyngiadau prosiect o'r fath oni bai y rhoddir sylw hefyd i ffactorau eraill sy'n effeithio ar y dref. Er bod menter siopau gwib yn annhebygol o waredu'r holl anawsterau sy'n wynebu'r trefi gwledig hyn, gallai'n sicr fod yn rhan o'r ateb.

Ychydig o ymatebwyr (16%) a deimlai y gallai fod i fenter siopau gwib oblygiadau negyddol i fanwerthwyr presennol yn y dref. Mae 69% yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf â'r gosodiad, gan awgrymu bod yr ymatebwyr yn teimlo y byddai siop wib mewn gwirionedd o fudd i fanwerthwyr presennol drwy ddenu rhagor o siopwyr i mewn i'r dref.

Mae'r canfyddiadau llawn i'w gweld yn y siart isod:



4.4.2 Sylwadau pellach

Gwnaeth nifer o ymatebwyr sylwadau pellach ynglŷn â'r cysyniad o fenter siopau gwib. Ymysg y sylwadau mwyaf cyffredin mae'r angen i wneud yn siŵr y caiff unrhyw fenter gyhoeddusrwydd da:

Byddai'n rhaid i fenter siopau gwib gael ei marchnata'n dda er mwyn i bobl wybod beth sydd yno. *(Caerfyrddin)*

Byddai'n rhaid rhoi cyhoeddusrwydd da iddi am nad yw neb yn galw heibio'n unig. *(Hendy-gwyn ar Daf)*

Waw! Byddwn wrth fy modd yn gweld y manau gwag yn cael eu defnyddio ar gyfer siopau gwib a phethau eraill. Byddai wir angen ichi gael trefn ar ffyrdd i gyfathrebu hyn yn y cyfryngau cymdeithasol. Rwy'n byw yn Hendy-gwyn ar Daf a phetawn yn gwybod am fenter siopau gwib, byddwn yn mynd yno – ond byddai'n rhaid imi wybod amdani. Mae taflenni drwy'r ysgol yn sicr yn ffordd i ddweud wrth rieni a theuluoedd am weithgareddau. *(Hendy-gwyn ar Daf)*

Mae sylwadau eraill yn canolbwyntio ar yr angen i fenter fod yn "ychwanegu gwerth" i'r dref, gan sicrhau nad yw'r sefydliadau sy'n defnyddio manau gwib yn tynnu oddi ar fusnesau presennol ond yn edrych i wella'r hyn sydd yno eisoes:

Buddiol i'r holl fusnesau, hyd yn oed y rhai sydd yn y dref eisoes. *(Llandeilo)*

Eu defnyddio ar gyfer pethau nad ydynt ar gael yn y dref eisoes, hynny yw peidio â chystadlu'n uniongyrchol â'r hyn sydd yno eisoes. Menter – helpu'r siopau gwib i fod yn barhaol. *(Llanymddyfri)*

Dylai'r fenter gael ei gweld yn gyfle. Gweithio gyda busnesau presennol i gael eu cynnwys yn y gwaith o ddatblygu'r fenter. *(Sanclêr)*

Petai siopau gwib yn dod yma, bydd gofyn heddlua'r peth yn iawn. Rhaid bod yn wahanol i'r hyn sydd yma eisoes. *(Castellnewydd Emlyn)*

Roedd rhai ymatebwyr yn mynegi pryderon a/neu gafeatau i lwyddiant menter siopau gwib, ac mae'r mathau hyn o bryderon yn rhywbeth y dylid mynd i'r afael â nhw os yw'r prosiect i gael ei ddatblygu yn bellach:

Mae'r boblogaeth yn fater i'w ystyried. A oes digon o bobl i'w gwneud yn hyfyw. *(Sanclêr)*

Mae'n dibynnu pa ddefnydd fyddai'n cael ei wneud ohono. Nid rhywbeth a fyddai'n gystadleuaeth uniongyrchol yn unig. Rhaid i'r amrywiaeth a'r ansawdd fod yn iawn. *(Castellnewydd Emlyn)*

Angen ateb hirdymor. Nid yw siopau gwib yn ateb hirdymor. *(Hendy-gwyn ar Daf)*

Ond mae nifer o'r sylwadau yn amlygu'r ffaith bod yr ymatebwyr yn derbyn y syniad yn gadarnhaol, yn arbennig o ran cyflwyno cyfleoedd i bobl ifanc ac ehangu amrywiaeth y gofodau manwerthu a mathau eraill o ofodau yn y trefi:

Sinema gwib, rhywbeth i'r plant a'r bobl ifanc: adrodd storïau / sioeau pypedau. *(Llandeilo)*

Byddai siopau gwib yn golygu y byddai ymweld yn rhoi mwy o fwynhad am y byddai rhywbeth newydd i'w weld o hyd. *(Caerfyrddin)*

Rhoi cyfleoedd i bobl ifanc, gall roi profiad i bobl ifanc ddi-waith *(Llanymddyfri)*

Arddangosfa hanes lleol, arddangosfa hen luniau, celf i blant. *(Llandeilo)*

Sylwadau o Gaerfyrddin:

Os oes gennych unrhyw feddyliau ychwanegol am gysyniad...

- Angen addysgu pobl ynglŷn â beth yw siopau gwib. Pwysig ar gyfer cyfle ymchwil y farchnad i brofi'r farchnad
- Cyhyd ag nad rhywbeth a wnaiff ddiplannu'n sydyn fydd y busnes. Os oes problem, mae angen ichi allu mynd yn ôl atynt
- Byddai siopau gwib yn golygu y byddai ymweld yn rhoi mwy o fwynhad am y byddai rhywbeth newydd i'w weld o hyd.
- Byddai'n rhaid i fenter siopau gwib fod wedi'i marchnata'n dda er mwyn i bobl wybod beth sydd yno.
- Pethau tebyg i'r farchnad
- Bodlon a shwl di mwl wedi neud yn dda yma. Siopau tebyg i stondinau steddfod.
- Nid siopau gwib. Ie i unedau gwib.
- Siopau Nadolig
- Mwy o gynnyrch lleol.
- HMU wedi gweithio'n dda er nad oedd yn fusnes newydd.
- Mae Shoreditch Box Park yr wythnos hon (wythnos olaf Gorffennaf) yn enghraifft dda o sut mae'r cyfryngau cymdeithasol, YouTube a chenhedlaeth newydd o werthwyr a phrynwyr yn cynnal eu bywydau
- Help i bobl ifanc gychwyn busnesau

Sylwadau o Landeilo:

Os oes gennych unrhyw feddyliau ychwanegol am gysyniad...

- Sinema gwib, rhywbeth i'r plant a'r bobl ifanc: adrodd storïau / sioeau pypedau
- Mae'n gweithio'n dda mewn mannau eraill. Weithiau mae'n rhaid iddynt neidio o un siop i'r llall sy'n achosi anawsterau i gleientiaid
- Leekes – deunydd gwnïo / bwyd iach
- Amherthnasol. Ddim yn siopa felly byddai rhywbeth hamdden yn braf
- Gwneud i'r dref edrych yn well
- Bariau/tafarndai gwib
- Arddangosfa hanes lleol, arddangosfa hen luniau, celf i blant.
- Buddiol i'r holl fusnesau, hyd yn oed busnesau presennol y dref.
- Rhywbeth gwahanol i edrych arno.

Sylwadau o Lanymddyfri

Os oes gennych unrhyw feddyliau ychwanegol am gysyniad...

- Eu defnyddio ar gyfer pethau sydd ddim ar gael yn y dref eisoes, hynny yw peidio â chystadlu yn uniongyrchol â'r hyn sydd yno. Menter – helpu'r siopau gwib i fod yn barhaol
- Rhoi cyfleoedd i bobl ifanc, gall roi profiad i bobl ifanc ddi-waith
- Byddai erthyglau pwrpasol gan fusnes ynghyd â phroffil yn denu pobl i mewn. Yn dda i'r dref am y byddai'n tynnu pobl i mewn na fyddai fel arfer â mynediad at y cynnyrch hwnnw
- Amrywiaeth o siopau gwib, hynny yw 6 neu ragor. Gallai gormod ohonynt gael effaith andwyol ar dref
- Arddangosfa dda yn y ffenest a gwahanol. Gallai siopau lleol ddefnyddio'r arddangosfa i hyrwyddo busnes?
- Rhaid cadw mewn cof ble fyddai eich cystadleuydd agosaf. Siopau dringo a siopau beiciau modur.

Sylwadau o Sanclêr:

Os oes gennych unrhyw feddyliau ychwanegol am gysyniad....

- Eu defnyddio ar gyfer pethau sydd ddim ar gael yn y dref eisoes, hynny yw peidio â chystadlu yn uniongyrchol â'r hyn sydd yno. Menter – helpu'r siopau gwib i fod yn barhaol
- Rhoi cyfleoedd i bobl ifanc, gall roi profiad i bobl ifanc ddi-waith
- Byddai erthyglau pwrpasol gan fusnes ynghyd â phroffil yn denu pobl i mewn. Yn dda i'r dref am y byddai'n tynnu pobl i mewn na fyddai fel arfer â mynediad at y cynnyrch hwnnw
- Amrywiaeth o siopau gwib, hynny yw 6 neu ragor. Gallai gormod ohonynt gael effaith andwyol ar dref
- Arddangosfa dda yn y ffenest a gwahanol. Gallai siopau lleol ddefnyddio'r arddangosfa i hyrwyddo busnes?
- Rhaid cadw mewn cof ble fyddai eich cystadleuydd agosaf. Siopau dringo a siopau beiciau modur.

Sylwadau o Gastellnewydd Emlyn

Os oes gennych unrhyw feddyliau ychwanegol am gysyniad...

- Dylid ystyried y fenter yn gyfle. Gweithio gyda busnesau lleol i'w cynnwys yn y gwaith o ddatblygu'r fenter
- Mae'r boblogaeth yn fater i'w ystyried. A oes digon o bobl i'w gwneud yn hyfyw?
- Rhaid iddo fod yn gynaliadwy. Edrychwch ar Aberdaugleddau. Defnyddio siop wag i roi gwybodaeth am y dref.

Sylwadau o Hendy-gwyn ar Daf

Os oes gennych unrhyw feddyliau ychwanegol am gysyniad...

- Byddai menter wedi'i rhedeg yn dda yn rhywbeth i'w groesawu
- Byddai'n rhaid iddi gael cyhoeddusrwydd da am nad oes neb yn pasio heibio
- Dillad plant a dillad yn gyffredinol
- Gallech ddod o hyd i fusnes sydd eisiau aros yn y tymor hir. Siop wib ar agor at ddefnydd y gymuned – nid cymryd arian a rhedeg
- Siwtio'r lle
- Angen pethau parhaol na fydd yn cael effaith ar fusnesau sydd yno'n barod. Llawer o bobl yn dod i mewn i'r dref oherwydd deintydd y GIG – o bellter mawr
- Angen ateb hirdymor. Nid yw siopau gwib yn ateb hirdymor.
- Waw! Byddwn wrth fy modd yn gweld y mannau gwag yn cael eu defnyddio ar gyfer siopau gwib a phethau eraill. Byddai wir angen ichi gael trefn ar ffyrdd i gyfathrebu hyn yn y cyfryngau cymdeithasol. Rwy'n byw yn Hendy-gwyn ar Daf a phetawn yn gwybod am fenter siopau gwib, byddwn yn mynd yno – ond byddai'n rhaid imi wybod amdani. Mae taflenni drwy'r ysgol yn ffordd sicr i ddweud wrth rieni a theuluoedd am weithgareddau.

Atodiad 2:

**Astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer
Menter Siopau Gwib yn Sir
Gaerfyrddin:
YMGYNGHORI Â
BUSNESAU**

Canfyddiadau llawn yr ymarferiad ymgynghori â busnesau abgynhaliwyd mewn chwech o drefi marchnad yn Sir Gaerfyrddin, i ddeall effaith bresennol siopau gwag yn y trefi ac archwilio opsiynau i'w hadfywio.

CANFYDDIADAU LLAWN

Perspectif



1. Trosolwg

Mae'r gwaith ymchwil hwn yn rhan o raglen ehangach o ymchwil ddesg eilaidd ac ymgynghori'n ehangach â rhanddeiliaid, i bennu dichonoldeb menter siopau gwib ledled Sir Gaerfyrddin.

Mae'r adroddiad yn cyflwyno canfyddiadau llawn ein hymchwil ymysg busnesau mewn 6 o drefi marchnad (Caerfyrddin, Llandeilo, Llanymddyfri, Castellnewydd Emlyn, Sanclêr a Hendy-gwyn ar Daf) yn Sir Gaerfyrddin ym mis Gorffennaf a mis Medi 2016.

2. Cyflwyniad

Cynhaliwyd cyfanswm o **97 o gyfweiliadau â busnesau** ar draws y trefi hyn i ganfod eu hagweddau a'u teimladau tuag at y dref yr oeddynt ynddi, a chanfod a ydynt yn teimlo y byddai menter siopau gwib o fudd i'r dref ac yn helpu i ddenu ymwelwyr ychwanegol. Mae nifer y cyfweiliadau a gynhaliwyd â busnesau ym mhob tref fel a ganlyn:

- 12 o gyfweiliadau wedi'u cynnal â busnesau yn nhref Llandeilo
- 25 â busnesau yng nghanol tref Caerfyrddin
- 10 â busnesau yng Nghastellnewydd Emlyn
- 14 â busnesau yn Llanymddyfri
- 12 yn Sanclêr
- 8 o gyfweiliadau wedi'u cwblhau yn Hendy-gwyn ar Daf

Cynhaliwyd 16 o gyfweiliadau pellach drwy Ferched mewn Mentrau Gwledig Sir Gaerfyrddin.

3. Crynodeb o'r canfyddiadau

3.1 Proffil y busnesau

Mae 27% o'r busnesau ym maes manwerthu, ac mae 17% pellach yn disgrifio eu hunain yn wasanaethau busnes proffesiynol. Roedd busnesau o amrywiaeth eang o sectorau eraill hefyd wedi'u cynnwys yn yr ymchwil, yn fwyaf nodedig felly busnesau celf a chreffft, bwyd a diod (cynhyrchu a gwasanaeth), iechyd a lles ac elusennau. Mae 39% o'r busnesau yn eu disgrifio eu hunain yn hunangyflogedig, ac mae gan 31% o fusnesau eraill lai na 5 o gyflogeion.

Mae 4 ym mhob 10 o'r ymatebwyr rhwng 45 a 59 oed, ac mae chwarter arall dros 60 oed.

3.2 Sianeli presennol i'r farchnad

Meddai 8 ym mhob 10 o'r busnesau fod ganddynt siop gan nodi bod eu presenoldeb ffisegol ar y stryd fawr yn rhan hanfodol o'u sianeli gwerthu. Mae gan 61% ohonynt wefan ac yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i gael eu cynnyrch i'r farchnad.

3.3 Agweddau tuag at siopau gwib

Yn gyffredinol, mae gan y busnesau agweddau cadarnhaol tuag at y cysyniad o siopau gwib, ond ychydig yn llai felly na'r defnyddwyr. Cytuna'r busnesau yn gryf â'r gosodiadau canlynol:

“Mae siopau gwib yn cynnig cyfleoedd i amrywiaeth eang o sefydliadau a busnesau, nid siopau manwerthu yn unig, e.e. ar gyfer arddangosfeydd celf, gwasanaethau ariannol neu iechyd a gwybodaeth i'r cyhoedd” “Mae gofodau gwib yn darparu cyfle i bob math o fusnesau a sefydliadau dreialu cynnyrch, gwasanaethau a marchnadoedd newydd a hynny ar risg isel”

Mae hyn yn awgrymu bod busnesau yn dechrau ystyried y cyfleoedd y gallai siopau gwib eu cynnig i'w busnesau eu hunain mewn meysydd eraill. Cyfeiriodd y busnesau at gymorth ag ardrethi a chostau sefydlu fel y math o gymorth fyddai fwyaf defnyddiol iddynt i sefydlu siop wib / gofod gweithio i'w rannu. Cyfeiriodd rhai ymatebwyr at ddiffyg lleoliadau / adeiladau addas fel y prif rwystr wrth ystyried siop wib.

3.4 Menter siopau gwib

Cyflwynodd y busnesau amrywiaeth o syniadau o ran yr hyn y teimlent fyddai'n gwneud i fenter siopau gwib weithio, gan gynnwys:

- Cynnig rhywbeth gwahanol
- Bod yn gysylltiedig â digwyddiadau eraill
- Lleoliad a chyhoeddusrwydd
- Cyllid

Cyfeiriodd y busnesau at y manteision canlynol i fenter siopau gwib:

- Denu pobl i mewn i'r dref
- Llenwi gofodau gwag

Pryder sy'n gyffredin ymysg y busnesau yw'r canfyddiad y bydd gan siopau gwib rent, ardrethi a gorbennion rhatach, ac y caiff hyn effaith negyddol ar fanwerthwyr presennol.

3.5 Gwelliannau a datblygiadau eraill yn y trefi


Medd 85% o'r busnesau y byddai rhagor o weithgareddau a digwyddiadau yn annog rhagor o bobl i ddod i mewn i'r dref, a theimla 69% y byddai rhagor yn cael eu hannog i ymweld petai'r cyfleusterau parcio yn cael eu gwella. Teimla 64% y gallai gwella cyflwyniad y dref gael dylanwad cadarnhaol ar niferoedd y'r ymwelwyr.

4. Canfyddiadau llawn

4.1 Proffil y busnesau


Ymgynghorwyd â busnesau ar draws amrywiaeth eang o sectorau yn y 6 lleoliad. Busnesau manwerthu oedd y gyfran uchaf o'r busnesau, gan gynrychioli tua chwarter yr holl fusnesau. Mae 17% o'r busnesau yn cynnig gwasanaethau busnes proffesiynol, gan gynnwys ysgrifennu copi, ymgynghori (marchnata, adnoddau dynol ac ati), gwasanaethau ariannol a chyfreithiol ac ati.

Disgrifiodd ychydig dros chwarter yr ymatebwyr (28%) eu busnes fel rhywbeth arall, gan gynnwys nifer yn y sector iechyd a lles, fel a welir isod:



4.1.1 Cyflogeion


Medd bron i 4 ym mhob 10 o'r busnesau a holwyd eu bod yn hunangyflogedig. Medd 3 ym mhob 10 pellach fod y busnes yn cyflogi llai na 5 o gyflogeion, ac 14% yn unig sydd â rhagor na 10 o gyflogeion. Mae hyn wir yn pwysleisio'r ffaith bod mwyafrif y busnesau yn y trefi gwledig hyn yn fach, yn berchen i bobl leol ac yn cael eu rhedeg yn lleol; dyma sylfaen y trefi hyn, ond mae arnynt angen mathau penodol o gymorth er mwyn ffynnu.



4.1.2 Demograffeg yr ymatebwyr

Menywod yw dau draean yr ymatebwyr o blith y busnesau (66%) a dynion yw 34%.


Mae'r gyfran uchaf (43%) yng ngrŵp oedran 45-59, gyda 27% pellach rhwng 30 a 44 oed a rhwng 60 a 74 oed.



4.2 Sianeli presennol i'r farchnad

Gofynnwyd i'r ymatebwyr nodi pa sianeli a ddefnyddiwyd ganddynt yn y gorffennol ac a ddefnyddir ganddynt ar hyn o bryd i gael eu cynnyrch i'r farchnad.

Yn gyffredinol, roedd bron i 8 ym mhob 10 o'r busnesau yn dweud bod ganddynt siop gan awgrymu bod eu presenoldeb ffisegol ar y stryd fawr yn rhan hanfodol o'u sianeli gwerthu. Mae tua 6 ym mhob 10 yn defnyddio / wedi defnyddio gwefan i gael eu cynnyrch i'r farchnad, ac mae cyfran debyg yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol ar hyn o bryd. Sianeli i'r farchnad: sianeli a ddefnyddiwyd yn y gorffennol yn erbyn y rhai a ddefnyddir ar hyn o bryd.



Yn ôl y canfyddiadau hyn, prin yw'r gwahaniaeth rhwng y dulliau a ddefnyddiwyd yn y gorffennol a'r rhai a ddefnyddir ar hyn o bryd, gan awgrymu bod busnesau'n glynu wrth sianeli sy'n llwyddiannus iddynt yn hytrach nag arbrofi â llwybrau newydd i'r farchnad.

4.3 Agweddau tuag at siopau gwib

4.3.1 Gosodiadau cysyniadol


Yn gyffredinol, mae gan y busnesau agweddau cadarnhaol tuag at gysyniad siopau gwib, ond ychydig yn llai felly na'r defnyddwyr:

- Mae 88% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r gosodiad hwn:
“Mae siopau gwib yn cynnig cyfleoedd i amrywiaeth eang o sefydliadau a busnesau, nid siopau manwerthu yn unig, e.e. ar gyfer arddangosfeydd celf, gwasanaethau ariannol neu iechyd a gwybodaeth i'r cyhoedd”

Mae hyn yn pwysleisio'r cyfle i ofodau gwib gael eu derbyn gan fanwerthwyr a busnesau presennol petaent yn cynnwys amrywiaeth eang o wahanol ddefnydd.

- Mae 86% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r gosodiad hwn:
“Mae gofodau gwib yn darparu cyfle i bob math o fusnesau a sefydliadau dreialu cynnyrch, gwasanaethau a marchnadoedd newydd a hynny ar risg isel”

Mae busnesau wedi dechrau nodi ei bod yn bosib y gallai fod cyfleoedd i'w busnesau eu hunain dreialu eu cynnyrch a'u gwasanaethau presennol mewn lleoliadau presennol drwy fenter siopau gwib. Yr oedd canfyddiad bod hyn yn gyfle go gyffrous i nifer o'r busnesau. Meddai 43% ohonynt y byddent yn ystyried agor siop wib neu ddefnyddio gofod wedi'i rannu i'w busnes, er bod cafeatau o ran logisteg ac ati.




- Mae 7 ym mhob 10 yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r gosodiad hwn:
“Byddai menter siopau gwib yn fuddiol i drefi gwledig Sir Gaerfyrddin yn y tymor hir”

Er bod y busnesau wedi'u hargyhoeddi ychydig yn llai na'r defnyddwyr y gallai fod i fenter siopau gwib fanteision hirdymor i'r dref (mae 85% o'r defnyddwyr yn cytuno â'r gosodiad hwn), y maent yn dal i fod yn rhyfeddol o gadarnhaol ynglŷn â'r posibilrwydd o fanteision hirdymor i fenter o'r fath o'i gweithredu'n iawn.

- Mae mwy na hanner (56%) y busnesau yn anghytuno â'r gosodiad hwn:
“Byddai i fenter siopau gwib oblygiadau negyddol i'r dref”

Ac roedd 23% pellach heb fod yn cytuno nac yn anghytuno â'r gosodiad. 2 ym mhob 10 yn unig o'r busnesai sy'n teimlo y byddai menter siop wib yn andwyol i'w tref.



4.3.2 Cymorth sydd ei angen i agor siopau gwib / gofod gweithio wedi'i rannu

Gofynnwyd i'r ymatebwyr wedyn ba fath o gymorth a fyddai angen arnynt i agor siop wib neu ofod gweithio i'w rannu.¹

Ardrethi a chostau sefydlu a nodwyd gan y nifer uchaf o ymatebwyr fel y meysydd y teimlant y byddai angen cymorth arnynt, er gwaethaf y ffaith i lawer o'r busnesau deimlo bod siopau gwib yn rhoi mantais annheg i fusnesau gwib pan gaiff ardrethi is eu cynnig:



Credaf fod cyllid ar gyfer rhentu am gael effaith fawr – yn arbennig i unig fasnachwr a hefyd cyflwr y siop – faint o addurno fydd ei angen

Cymorth gydag ardrethi a sefydlu

Cymorth gyda gosodiadau'r siop

Cymorth ariannol ar gyfer mis neu ddau o ardrethi. Cydweithrediad y landlord

Rhyddhad rhag ardrethi – mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn dal i roi rhyddhad rhag ardrethi i fusnesau



Mae meysydd eraill a nodir gan nifer o ymatebwyr yn cyfeirio at y ffaith bod cefnogaeth / cydweithrediad y landlord yn hanfodol er mwyn i siop wib fod yn llwyddiannus, wrth i rai fynegi y bu hyn yn broblem yn y gorffennol:



Landlordiaid hyblyg, dim ardrethi (eithriadau), ymrwymo am fis

Cymorth ariannol ar gyfer mis neu ddau o ardrethi. Cydweithrediad y landlord

Cydweithrediad y landlord. Wedi rhoi cynnig ar agor siop wib am bum mis mewn siop wag ond ni chytunai'r landlord i hynny.

Cydweithrediad landlordiaid



4.3.3 Rhwystrau i agor siop wib / gofod gweithio i'w rannu

Gofynnwyd i'r ymatebwyr wedyn nodi ba fathau o rwystrau allai eu hatal rhag agor siop wib neu ddefnyddio gofod gweithio i'w rannu. Er mai ymarferol yw natur llawer o'r pryderon, yn ymwneud â chyllid ac adnoddau staffio er enghraifft, tybir bod eraill yn bodoli er mai ychydig sy'n bodoli i awgrymu y byddai'r rhwystrau hyn yn bodoli mewn gwirionedd. Yn sicr, y mae lefel o ddisgwyliad na fyddai landlordiaid yn cefnogi siopau gwib, ond gallai menter siop wib waredu'r rhwystr hwn drwy gymryd les hirdymor gyda landlord a rheoli lesau tymor byr y siopau gwib. Dyma'r meysydd a nodir gan y cyfrannau uchaf o ymatebwyr fel rhwystrau i ymwneud â siop wib:³

² Rhoddir crynodeb llawn o'r canlyniadau yn Atodiad I

“

Lleoliad ac adeiladau addas

Cost rhent a diffyg empathi gan landlordiaid
Ardrethi uchel, landlordiaid anhyblyg, landlordiaid absennol
Lleoliadau ar gael yn ganolog

”

“

Cyllid ac adnoddau eraill

Byddai angen ystyried elfen amser a chostau sefydlu a
stoc ar gyfer cyfnod byr o amser
Costau yn unig
Gofynion cyfalaf – uned gradd bwyd (goblygiadau cost)
potensial i adennill y costau os yn llwyddiannus
Amser, ymrwymiad, arian a gwerth

”

“

Pryderon i fusnesau presennol

Ni fyddwn yn hoffi rhoi cystadleuaeth â chymhorthdal i fanwerthwyr eraill
Rhaid gwrthod siopau gwib i fanwerthwyr yn glir oherwydd yr ardrethi gostyngol sy'n
cael eu cynnig sy'n annheg
Landlordiaid preifat / cystadlu â busnesau presennol

”

4.4 Menter siopau gwib

4.4.1 Beth fyddai'n angenrheidiol er mwyn gwneud i fenter siopau gwib weithio?

Gofynnwyd i'r busnesau wedyn o dan ba amgylchiadau y gallent weld menter siopau gwib yn gweithio ledled Sir Gaerfyrddin.¹

“

Cynnig rhywbeth gwahanol:

Siopau unigryw – heb effeithio ar y siopau eraill.
Angen bod yng nghanol y dref rhag i ymwelwyr gael eu denu allan o'r dref.

Os yw'r hyn mae'r siopau gwib yn ei gynnig yn wahanol
i'r hyn sy'n bodoli yn y dref ar hyn o bryd.

Angen iddi fod yn fenter newydd ym maes manwerthu
nad yw'n peryglu masnachwyr presennol

Fel GOFOD gwib yn hytrach na siop wib ar gyfer manwerthu.

Os nad yw'n cystadlu â darparwyr presennol, nid ar adegau prysur y flwyddyn yn unig

Amrywiaeth o siopau. Cymorth i fusnesau newydd.
Dylai'r cyngor annog landlordiaid i roi lesau byr.

Rhywbeth nad yw eisoes ar gael yn y dref er mwyn rhoi mwy
o amrywiaeth siopa i rai sy'n ymweld â'r dref

”

“

Yn gysylltiedig â digwyddiadau eraill:

Mae'n debygol y byddai siopau gwib'n gweithio orau petaent yn gysylltiedig â
digwyddiadau eraill, fel gwyliau ac ati, neu ar adegau prysuraf y flwyddyn – haf, Nadolig

Adeg digwyddiad pan fo amrywiaeth ehangach o gwsmeriaid o gwmpas. Gallai siopau
gwib ddenu cwsmeriaid hyn i'r ardal yn ychwanegol at bobl ifanc ar sail amrywiaeth a
diwylliant yn y dref.

”

“

Lleoliad a chyhoeddusrwydd:

Angen bod yng nghanol y dref rhag i ymwelwyr gael eu denu allan o'r dref.

Byddai angen llawer o hysbysebu a sylw yn y wasg, a byddai angen i'r lleoliad fod yn
ganolog a hawdd i bobl daro arno. Byddai angen i'r rhent fod yn hyblyg a rhesymol i
annog pobl i gymryd y risg o roi cynnig ar eu syniad busnes

Gyda chymorth digonol i farchnata.

Digonedd o hysbysebu i roi gwybod iddynt beth sydd yno

”

¹ Mae crynodeb llawn o'r ymatebion wedi'i gynnwys yn Atodiad III

“

Unwaith eto, mae cyllid yn thema bwysig:

Lleihau gorbenion, ardrethi am ddim neu ostyngol. Cyllid a chymorth gyda marchnata, hysbysebion a phosteri

Byddai cymorth gydag ardrethi yn ddefnyddiol

Cymorth ariannol. 6 mis o les

”

“

Mae rhai ymatebwyr yn ei chael yn anodd gweld unrhyw ffordd y gallai menter weithio:

Ni allaf. Byddai siopau eraill yn cau yn y pen draw

Ni allaf

”

“

Ac mae eraill yn gwbl gefnogol:

Rwy'n credu eu bod nhw'n syniad gwych – rhoi'r cyfle i bobl roi cynnig ar syniadau heb gychwyn ar lesau/contractau hir – gwneud yn siŵr y gallant gychwyn arni a sefydlogi a'r gobaith yw, os bydd popeth yn mynd yn dda, gall y busnes gael ei ddatblygu a gwella cyfleusterau yn gyffredinol

Dim cyfyngiadau o gwbl. Dylai pob tref groesawu'r cyfle i ganiatáu / croesawu siopau gwib

”

4.4.2 Manteision menter siopau gwib

Gofynnwyd i'r perchnogion busnes wedyn beth oeddynt yn teimlo fyddai prif fanteision menter siopau gwib i'w tref.

Denu pobl i mewn i'r dref yw'r fantais sy'n codi amlaf, a chaiff ei nodi gan ryw chwarter yr holl ymatebwyr yn y cwestiwn penagored hwn. Mae rhai enghreifftiau nodweddiadol o'r ymatebion a dderbyniwyd i'w gweld isod:

Cyhyd â bod digon o hysbysebu a'r cyfryngau i'w wthio, byddai'n denu rhagor o bobl i mewn i'r dref sydd â'r bwriad i wario arian, byddai o fudd i'r holl berchnogion busnes presennol.

Lleihau siopau gwag, gallai ddenu pobl i mewn, gwella golwg y dref.

Annog rhagor o bobl i ymweld â'r dref.

Denu rhagor o bobl i mewn. Gwell na siop wag.

Denu rhagor o bobl i mewn.

Denu pobl i mewn na fyddai'n dod yma fel arall, yn ogystal â chynnig newidiaeth a mwy o ddewis i'r bobl leol a ddaw yma'n rheolaidd.

Yn ogystal â denu rhagor o bobl i mewn, teimlai llawer o fusnesau y byddai bod siopau wedi'u llenwi ac yn cael eu defnyddio yn fantais sylweddol i'r dref:

Llenwi gofodau gwag

Gwneud i'r dref edrych yn well. Mwy o amrywiaeth i'r defnyddwyr

O ran estheteg, byddai'n llenwi'r siopau. Byddai hefyd yn denu pobl i mewn i weld rhywbeth gwahanol ac yn annog pobl i aros yn hwy

Mae twristiaid a phobl leol fel ei gilydd yn hoffi'r ffaith bod Castellnewydd Emlyn yn unigryw. Er y gallai siopau gwib roi'r argraff, efallai, bod y dref yn dioddef, gallai gynyddu amrywiaeth stryd fawr sydd eisoes yn amrywiol ac mae'n siŵr eu bod yn well na siopau gwag.

Does dim yn waeth na gweld siopau gwag felly byddai'n rhoi bywyd newydd i'r stryd fawr, byddai'n ffordd dda i gael syniad o fusnes mewn tref arall

Mae sawl un hyd yn oed yn cydnabod y gallai fod budd yn eu sgil i fusnesau presennol:

Mae rhagor o siopau llawn yn gwneud i'r dref edrych yn well – gallai pawb elwa

Bydd busnesau presennol yn elwa, rhagor o bobl o gwmpas

Cwsmeriaid newydd – sgil effaith i'r siopau parhaol

Mae lleiafrif bach iawn yn teimlo na fyddai menter siopau gwib o unrhyw fudd i'r dref, gan gyfeirio at faterion yn ymwneud â lesau a chostau i fusnesau parhaol yn eu rhoi dan anfantais:

Dim, am nad yw'n deg ar fusnesau eraill sy'n gorfod cymryd lesau hir a thalu ardrethi

Er i hyn gael ei nodi yn ganfyddiad cymharol gyffredin ymysg rhai masnachwyr, mewn gwirionedd nid dyma'r sefyllfa ar unrhyw gyfrif. Dylai model menter siopau gwib geisio sicrhau bod yr effaith negyddol ganfyddiadol hon ar fasnachwyr presennol mor fach â phosib drwy gynnwys strwythur prisio tryloyw i fusnesau'r siopau gwib sy'n galluogi i fusnesau presennol weld nad ydynt o dan anfantais. Bydd cyfathrebu da yn hanfodol i sicrhau llwyddiant unrhyw fenter.

Mae crynodeb llawn o'r holl ymatebion i'w gweld yn Atodiad IV

4.4.3 Pryderon

Er bod mwyafrif y busnesau y siaradom â nhw yn gefnogol i fenter yn eu tref, roedd llawer yn dal i fynegi rhai pryderon ac amheuan, yn arbennig ynghylch y sefyllfa ganfyddiadol y bydd gan siopau gwib rent, ardrethi a gorbenion rhatach, ac y bydd hyn yn effeithio'n negyddol ar fanwerthwyr presennol:

Diffyg cysondeb ar y stryd fawr. Effaith negyddol ar fusnesau presennol gan y byddai gan siopau gwib orbenion is gan alluogi iddynt werthu eu cynnyrch ar bris is na'r manwerthwyr presennol sy'n talu rhent a threth busnes llawn

Bydd yn ei gwneud yn anoddach i'r siopau eraill ddal ati

Gorbenion is yn golygu bod mantais gan siopau sionc dros siopau parhaol – yn medru bod yn fwy cystadleuol gyda'r prisiau

Pryderon ynglŷn â chymryd busnes oddi ar eraill. Peidio ag ymrwymo i'r dref. Cael ardrethi is na busnesau sy'n barhaol

Cyhyd ag nad ydynt yn cymryd “hufen” yr arian ar adegau prysur y flwyddyn (e.e. Nadolig) gan fod yn rhaid i fasnachwyr arferol oroesi drwy gydol y flwyddyn. Yr adegau da a drwg.

Teimla eraill y gellid gwneud mwy i gynorthwyo manwerthwyr presennol:

Mae angen gostwng y rhent i fanwerthwyr presennol. Mae angen i'r cyngor lanhau'r aleon a gwacau binau olwynion. Byddai rhagor o feinciau ac ardaloedd eistedd yn cadw pobl yn y dref yn hwy.

Mae landlordiaid yn hyblyg â rhent – dylai ardrethi fod yn hyblyg hefyd (yn arbennig os yw rhywun yn ei chael yn anodd). Mae angen rhagor o siopau annibynnol, gosod posterï dros siopau gwag presennol a thacluso adeiladau sy'n adfeilio.

Gwanhau elw manwerthwyr presennol gan achosi i ragor o siopau gau, rhaid helpu'r dref yn gyfan, nid darn ohoni yn unig

Mae eraill wedyn yn mynegi pryder y gallai natur wib y siopau hyn ynddi'i hun fod yn andwyol i'r trefi:

Cyhyd â'u bod wedi'u cefnogi'n iawn, byddai'n rhaid iddi fod yn barhaus – does dim pwynt cael siop wib am bythefnos ac wedyn bod y siop yn wag eto, rhaid ei bod yn rhaglen dreigl.

Byddai angen iddi fod yn gynaliadwy – does dim yn digalonni mwy na bod yn llawn bywyd am ryw wythnos ac wedyn ei bod yn cau eto.

Y natur wib. Byddai'n well gen i weld busnesau parhaol. Cynhaliodd HMV siop wib yng Nghaerfyrddin adeg Nadolig a oedd yn wych, ac wedyn diflannodd!

Oes, mae angen busnesau hirdymor arnom i sefydlu eu gwasanaethau fel Arberth. Nid atebion cyflym yw'r ffordd ymlaen

Teimla eraill fod y math o fusnes yn arbennig o bwysig, o safbwynt cystadleuaeth ac o safbwynt amrywiaeth a pha mor ddeniadol yw'r dref:

Mewn tref farchnad fach gall siopau gwib fod yn lletchwith petai rhywun yn dod i mewn â'r un cynnyrch.

Byddai cydweithio yn hanfodol.

Cystadleuaeth. Byddai o gymorth pe gallai masnachwyr lleol gael dweud eu dweud ar addasrwydd siopau posib.

Wedi'i reoleiddio, dim siopau rhad, di-chwaeth, gan wneud yn siŵr eu bod o ansawdd uchel ac yn gweddu i'r dref.

Dim a fyddai'n achosi unrhyw broblemau inni. Byddai'n bwysig bod yn ofalus pa fath o siop sy'n mynd ble rhag niweidio busnesau presennol.

Er i nifer o ymatebwyr fynegi pryderon, mae llawer yn dweud yn glir nad oes ganddynt unrhyw bryderon, ac o'r farn bod menter siopau gwib yn syniad i'w groesawu a fyddai'n bywiogi eu trefi:

Dim pryderon. Wedi gweld sawl busnes yn datblygu yn fwy wrth ddechrau mewn siop sionc

Dim – rwy'n ei groesawu

Na. Ni all ond bod yn beth.

Cyhyd â'i bod yn addas i'r dref, does dim problem.

Ddim yn benodol, gorau po fwyaf


Mae crynodeb llawn o'r holl ymatebion i'r cwestiwn hwn wedi'u cynnwys fel Atodiad V

4.5 Gwelliannau a datblygiadau eraill yn y trefi

Gofynnwyd i'r busnesau wedyn ba fath o weithgareddau neu ddatblygiadau ychwanegol y gellid eu gwneud i annog rhagor o bobl i ymweld â'r dref.

Meddai 85% y byddai rhagor o weithgareddau a digwyddiadau yn annog rhagor o bobl i ymweld â'r dref, a theimlai 69% y câi rhagor eu hannog i ymweld petai'r cyfleusterau parcio yn cael eu gwella. Mae 64% yn teimlo y gallai gwella cyflwyniad y dref ddylanwadu'n gadarnhaol ar y niferoedd sy'n ymweld â'r dref.

Mae ychydig dros hanner yn teimlo y byddai amrywiaeth ehangach o siopau (57%) a mwy o adloniant (53%) yn annog rhagor o bobl i ymweld.



Gwnaeth tua thraean y busnesau awgrymiadau ychwanegol o ran sut i annog rhagor o bobl i ymweld â'r dref.

Mae'r rhain yn cynnwys:

- Parcio am ddim am gyfnod byr / parcio am ddim ar ddydd Sul
- Cyfleusterau newid babanod
- Siopau penodol megis nwyddau cegin a chartref, celf a chreffft ac ati
- Gwell defnydd o gyfleusterau presennol e.e. gwybodaeth i dwristiaid ac ati

Atodiad I

Pa gymorth fyddai ei angen arnoch i agor siop wib neu ofod gweithio i'w rannu

- Byddai'r telerau ac amodau yn bwysig
- Credaf y caiff cyllid ar gyfer y rhent effaith fawr – yn arbennig i unig fasnachwr a hefyd cyflwr y siop – faint o addurno fydd ei angen
- Yr opsiwn i rannu'r eiddo gyda therapyddion eraill
- Byddai'n dibynnu ar y math o farchnad y byddwn yn ei denu, manwerthu
- Cymorth gydag ardrethi a sefydlu
- Landlord – ffeindio lle
- Cefnogaeth ariannol – i staffio ac ati
- Cefais fy ngwahodd i ymuno â siop wib yn y Bont-faen, ond byddai busnes newydd yn ei chael yn anodd oherwydd costau sefydlu uchel. Angen arian ar gyfer arwyddion a stondin ac ati
- Landlordiaid hyblyg, dim ardrethi (eithriadau), ymrwymo am fis
- Cyngor ar ba gyllid sydd ar gael i fusnesau newydd; cadw cyfrifon (arweiniad ar hyfforddiant); hysbysebu
- Rhent fforddiadwy iawn gyda chyfleuster i ymestyn ar gyfer cyfnod treialu pellach
- Cymorth ariannol, gosodiadau'r siop
- Cymorth gan fasnachwyr presennol
- Cymorth gyda gosodiadau'r siop
- Templed ar gyfer les gwib, person cyswllt i gydlynu'r broses
- Petai menter mewn tref arall, er mwyn i mi dreialu fy nghynnyrch.
- Les hyblyg, gofod atyniadol.
- Y lleoliad cywir ac fel rhan o ddigwyddiad.
- WiFi am ddim ar gyfer peiriant derbyn cerdyn, caniatâd gan y cyngor i osod arwyddion
- Cyngor busnes a marchnata
- Cymorth ariannol ar gyfer mis neu ddau o ardrethi. Cydweithrediad y landlord
- Llai o ardrethi. Peidio â chloi i mewn i les hir.
- Cydweithrediad y landlord. Wedi rhoi cynnig ar agor siop wib am bum mis mewn siop wag ond ni chytunai'r landlord i hynny.
- Diddordeb i dreialu mewn trefi eraill. Angen help o ran hysbysebu
- Cydweithrediad landlordiaid.
- Cymhorthdal ardrethi
- Rhent/ardrethi gweddus
- Hysbysebu / trosoledd
- Benthyciadau llog isel ar gyfer stoc – rhent gostyngedig o bosib drwy rannu a sicrwydd gofod am gyfnod o amser.
- 'Jyst mynd amdani'
- Cyllid i brynu offer / costau staffio / dod o hyd i staff
- Cynnal siopau gwib dros y Nadolig
- Chwilio ar hyn o bryd am gyfalaf i brynu offer – Busnes Cymru
- Llif arian
- Cyflog ar gyfer cynorthwydd
- Rhyddhad rhag ardrethi – mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn dal i roi rhyddhad rhag ardrethi i fusnesau
- Amgylchedd ffisegol addas – gofod i hongian.

Atodiad II

Pa rwystrau y credwch sydd i chi / eich busnes

- Amser, ymrwymiad, arian a gwerth
- Ddim yn canolbwyntio ar B2C ar hyn o bryd
- Cynnyrch digidol
- Cost, lleoliad, hyd y cyfnod / lleiafswm contract
- Ni chredaf y byddai o fudd i fy niwydiant i
- Dim ymwybyddiaeth ohonof / o'r hyn mae cwnsela yn golygu
- Mae gen i 2 fusnes a gallai'r siop wib ar gyfer fy nghwmni glanhau weithio a byddwn yn ei ystyried ar gyfer fy nghwmni hyfforddi
- Amser sefydlu, llogi fan
- Lleoliad ar gael yn ganolog
- Staffio
- Rhannu amser rhwng dau safle
- Dibynnu ar y brandiau eraill yn y siop – angen gwneud yn siŵr bod y cwmnïau eraill yn cydweddu â'n brand
- Capasiti
- Efallai na fydd y gofodau yn y lle iawn
- Mae siopau gwib yn ffordd dda i brofi'r dŵr gyda'ch syniad busnes, ond wedyn os yw'n llwyddiannus iawn byddai'n rhaid ichi wedyn chwilio am leoliad parhaol. Diffyg cyllid i gychwyn arni. Dim grantiau ar gael.
- Gwybodaeth a beth sydd ar gael
- Agwedd diogelwch o bosib
- Sicrhau nad oes anfantais i berchnogion busnesau presennol
- Landlordiaid preifat / cystadlu â busnesau presennol
- staffio
- yswiriant
- Bydd yn cau yn y pen draw
- Anodd i'w maes nhw o waith. Gallai weithio yn achos gwybodaeth ond ni fyddai'n ddichonadwy yn fasnachol
- Rhaid gwrthod siopau gwib i fanwerthwyr yn glir oherwydd yr ardrethi gostyngol sy'n cael eu cynnig, sy'n annheg
- Biwrocratiaeth: mae'r costau sefydlu yn enfawr, yr un peth â siop parhaol. Cythruddo perchnogion siopau parhaol
- Cost y lleoliad. Trethi?
- Lleoliad.
- Dibynnu pa mor brysur yw'r busnes presennol a'r staffio.
- Bod modd lledaenu'r gair. Parcio i ollwng stoc. Wifi a signal ffôn. Agwedd pobl tuag at pam fyddech yn cynnal siop wib
- Rhent a threth
- Fel uchod. Methu â siarad gyda'r landlordiaid.
- Busnes yn anaddas
- Cost rhent a diffyg empathi gan landlordiaid.
- Mae'r rwystrau yn bodoli yn fy mhen ac efallai nad ydynt yn bodoli go iawn, ond fel y dwedais, dydw i ddim yn gwybod a yw fy marn yn arbennig o berthnasol. Wedi dweud hynny, roeddwn i'n falch gweld yr ymdrech sydd wedi'i gwneud ar y fenter hon.

- Eiddo sydd ar gael, parcio ceir
- Ddim ei angen – mae gennym adnoddau digonol
- Rhent uchel – SCW £50,000 y flwyddyn am siop fach
- Ddim wir yn bosibl – eiddo yn sefydlog ac wedi'i reoleiddio
- Gofynion cyfalaf – uned gradd bwyd (goblygiadau cost) potensial i adennill y costau os yn llwyddiannus
- 'hawdd i ni' – gallai fod yn anodd dod o hyd i bobl o gyffelyb fryd – diffyg rhwydweithiau busnes yn y dref a diffyg cefnogaeth drwy ymdrechu ar y cyd
- Costau
- Cyllid
- Costau cychwyn arni
- Costau yn unig
- Dim digon o le
- Amser / staffio
- Ariannol
- Anodd fyddai bod yno bob diwrnod 5 diwrnod yr wythnos
- Byddai angen ystyried elfen amser a chostau sefydlu a stoc am gyfnod byr o amser
- Sori – nid oes angen hyn arnom ni
- Canfod y cynnyrch iawn / arbenigol i'w gwerthu
- Dim digon o le
- Cael rhywun i'w reoli a'i redeg
- Ni fyddwn eisiau rhoi cystadleuaeth â chymhorthdal i fanwerthwyr eraill
- Dim
- Diffyg gofod
- Gan mai cynnyrch i bobl mewn busnes yw fy nghynnyrch, credaf mai ar benwythnosau'n unig y byddai'n hyfyw (y tu allan i'w horiau gweithio arferol) gan y byddwn yn methu fy marchnad. Er y byddai ochr arall fy marchnad – y rhieni a'r myfyrwyr – yn gallu rhyngweithio yn ystod gwyliau tymor.
- Byddai gen i ddiddordeb mwyaf mewn oriel wib, ar y cyd â phobl eraill yn y celfyddydau.

Atodiad III

O dan ba amgylchiadau, os o gwbl, y gallech weld menter siop wib yn agor ledled Sir Gaerfyrddin?

- Siopau unigryw – heb effeithio ar y siopau eraill. Angen bod yn nghanol y dref rhag i ymwelwyr gael eu denu allan o'r dref.
- Les sefydlog tymor byr – hyd at 3 mis
- Mae'n debygol y byddai siopau gwib yn gweithio orau petaent yn gysylltiedig â digwyddiadau eraill, fel gwyliau ac ati, neu ar adegau prysuraf y flwyddyn – haf, Nadolig
- Yn y sector elusennol – gyda chymorth y cyngor. Rhent am ddim / ardrethi am ddim
- Bod amser les, pob siop yn ddigon hir er mwyn codi ymwybyddiaeth i'r cyhoedd am beth sydd ar gael yn y siop
- Os yw'r hyn mae'r siopau gwib yn cynnig yn wahanol i'r hyn sy'n bodoli yn y dref ar hyn o bryd. Ddim yn rhy aml chwaith.
- Bwyty neu ar y stryd
- Rhaid iddi fod yn dymor byr. Mae maes ariannol gwastad i'r siopau presennol
- Cydweithrediad landlordiaid
- Defnyddio gofodau ar gyfer gweithgareddau creadigol ac artistig
- Ardrethi isel / wedi'u llunio'n briodol ar gyfer ardrethi. Rhaid dal y llygad – angen gwybod y byddai galw – mynediad at ddata
- Byddai angen llawer o hysbysebu a sylw yn y wasg, a byddai angen i'r lleoliad fod yn ganolog a hawdd i bobl daro arno. Byddai angen i'r rhent fod yn hyblyg a rhesymol i annog pobl i gymryd y risg o roi cynnig ar eu syniad busnes
- Dim cyfyngiadau o gwbl. Dylai pob tref groesawu'r cyfle i ganiatáu / croesawu siopau gwib
- Angen iddi fod yn fenter newydd ym maes manwerthu nad yw'n peryglu masnachwyr presennol
- Adeg digwyddiad pan fo amrywiaeth ehangach o gwsmeriaid o gwmpas. Gallai siopau gwib ddenu cwsmeriaid hŷn i'r ardal yn ychwanegol at bobl ifanc ar sail amrywiaeth a diwylliant yn y dref
- Heb anfantais i fasnachwyr presennol yn ariannol
- Arddangosfeydd (celf / diwylliannol), siopau nad ydynt yn effeithio ar fusnesau presennol yn unig
- Ni allaf
- Os yw'n hawdd ei ddefnyddio / mynediad hawdd
- Arddangosfeydd mewn siopau gwag. Ar adegau arbennig y flwyddyn ee. Nadolig, gwyliau haf
- Cydweithrediad landlordiaid
- Cyhoeddusrwydd
- Fel GOFOD gwib yn hytrach na siop wib i fanwerthu.
- Os nad yw'n cystadlu â darparwyr presennol, nid ar adegau prysur y flwyddyn yn unig
- Ni allwn. Byddai siopau eraill yn cau yn y diwedd
- Wedi'i rheoli drwy'r Siambr Fasnach nid y cyngor.
- Tymhorol (Nadolig) neu'r haf o ran bwyd
- Credaf fod hyn yn syniad da gan fod ar y funud gwaetha'r modd gymaint o siopau gwag. Ond mae rhaid bod yn ofalus NAD yw'n cystadlu gyda busnesau bach annibynnol sy'n talu yn llawn am eu siop\saflle busnes
- Gyda chymorth digonol i farchnata.
- Llenwi'r siopau gwag – defnyddio'r siopau mawr fel gofod i'w rannu.
- Lleihau gorbenion, ardrethi gostyngedig neu am ddim. Cyllid a chymorth gyda marchnata, hysbysebion a phosteri
- Amrywiaeth neu rywbeth newydd

- Amrywiaeth o siopau. Cymorth i fusnesau newydd. Dylai'r cyngor annog landlordiaid i roi lesau byr.
- Dibynnu ar y cynnyrch. Byddai'n rhaid iddo fod yn wahanol i'r hyn sydd yn y dref.
- Bod modd i'r siopau gwib fasnachu am gyfnod hwy
- Amrywiaeth yn y dref a dim cystadleuaeth i fusnesau presennol eraill.
- Amrywiaeth tymor byr. Siopau tymhorol.
- Arddangosfeydd dillad (uwchgylchu), dillad dynion, siop esgidiau, pobydd
- Siopau gwib / digwyddiadau tymhorol. Mentrau cymunedol. Hyrwyddo digwyddiadau.
- Os yw'r economi'n parhau i ballu a bod mwy o siopau'n dod yn wag.
- Unrhyw rai, os yw'r math o siop yn cael ei asesu fel eu bod yn addas i'r ardal a heb fod y farchnad yn orlawn
- Digonedd o hysbysebu i roi gwybod iddynt beth sydd yno
- Rwy'n credu eu bod nhw'n syniad gwych – rhoi'r cyfle i bobl roi cynnig ar syniadau heb gychwyn ar lesau/contractau hir – gwneud yn siŵr y gallant gychwyn arni a sefydlogi a'r gobaith yw, os bydd popeth yn mynd yn dda, y gall y busnes gael ei ddatblygu gan wella cyfleusterau yn gyffredinol
- Adolygiad o bosib
- mewn cynllun wedi'i drefnu a'i gynorthwyo'n dda, gan roi gofal i anghenion a phryderon busnesau presennol
- Mynd i drefi eraill i dreialu cynnyrch
- Gofod i gychwyn busnes – gallai'r gât gael ei defnyddio'n well – hwyluso cyfleoedd i fusnesau – pobl yn mynd â gwaith adref
- Siopau gwib yn dda yn dymhorol, byddai gofyn hysbysebu'n dda iawn er mwyn iddi weithio, cydweithio â chyflenwyr. Menter wedi'i chefnogi gan y cyngor er mwyn rhoi cymorth i fusnesau bach gyda hysbysebu, costau ac ati.
- Siopau gwib tymhorol, cymorth gan rywun sydd â phrofiad o fanwerthu
- Pe byddai wedi cael cyhoeddusrwydd da ac wedi'i gydlynu'n dda gallai weithio, yn enwedig petai grŵp o 'siopau gwib' yn yr un ardal yr un pryd, gan wneud 'digwyddiad' ohono
- Byddai cymorth gydag ardrethi yn ddefnyddiol
- Cymorth ariannol. Les o 6 mis
- Wela i ddim sut na fyddai'n gweithio. Llety am ddim
- Byddai'n rhaid iddo gael ei hyrwyddo'n dda gyda digonedd o wybodaeth am y dref e.e. taflen, map llawer o bosteri
- Dewis o siopau gwib neu ddim – byddai siopau gwib yn iawn. Wedi'i wneud mewn modd sympathetig – wedi'i gynllunio fel ei fod yn cynnig rhywbeth gwahanol.
- Cyllid i helpu grwpiau penodol – menywod a fu'n ddi-waith
- Denu pobl i mewn i'r dref. Cymryd y fformat o drefi eraill
- Wedi'i weinyddu gan rywun fel Antur Teifi neu drefnydd (does dim ots gen i wirfoddoli!)
- Dim ond os byddai'r siop wib yn dod â gwasanaeth neu gynnyrch newydd i mewn i'r dref neu'r ardal honno.
- Byddai'n wych i Lanymddyfri
- Rhywun i gydlynu pa fusnesau sy'n dod yma
- Siop go iawn ac nid siopau elusen
- Yn Lanymddyfri byddwn yn hoff o weld oriel gelf neu arddangosfa arall. Fyddwn i ddim yn hoff o weld manwerthwyr gwib yn Lanymddyfri, oni bai ei bod yn wahanol iawn i'r hyn sydd yma eisoes neu'n rhywbeth ar wahân i fanwerthu e.e. therapi, cyngor ac ati.
- Rhywbeth nad yw eisoes ar gael yn y dref i roi mwy o amrywiaeth siopa i bobl sy'n ymweld â'r dref
- Treialu cynnyrch newydd
- Gwaredu ffioedd parcio. Byddai hyn yn denu pobl yn ôl.
- I fusnesau arddangos cynnyrch

- Rwy'n credu y byddai treialu syniadau myfyrwyr a'u haddysgu ynglŷn â sut i fod mewn busnes yn sicr yn helpu'r rhai sy'n credu y gallant fod yn entrepreneuriaidd
- Costau fforddiadwy, y cyfle i rwydweithio â masnachwyr eraill (neu yn fy achos i, arddangoswyr a allai gael eu cynnwys) a chyhoeddusrwydd da ar gost isel.

Atodiad IV

Beth ydych yn credu fyddai prif fanteision menter siopau gwib?

- Cwsmeriaid newydd – sgil effaith i'r siopau parhaol
- Creu bwrlwm tymor byr
- Denu rhagor o bobl i mewn i'r dref a gwneud defnydd o siopau gwag
- Budd bach, mwy o ddewis o bosib
- Gwell cael siop sionc yn hytrach na siop wag
- Llenwi gofodau gwag
- Treialu cynnyrch
- Llenwi rhagor o adeiladau
- Y dref yn edrych yn llawn – siopau gwag yn gwneud i'r dref edrych yn ddi-fflach
- Denu rhagor o fusnesau i mewn
- Cyhyd â bod digon o hysbysebu a'r cyfryngau i'w wthio, byddai'n denu rhagor o bobl i mewn i'r dref sydd â'r bwriad o wario arian, byddai o fudd i'r holl berchnogion busnes presennol.
- Cyflwyno rhywbeth newydd i'r cyhoedd tra'n cadw costau / gorbenion i lawr i'r perchennog. Cadw trefi fach yn fyw
- Yn syml, defnyddio gofod manwerthu gwag a rhoi'r argraff o fasnach cynaliadwy yn yr ardal leol
- Dim, am nad yw'n deg ar fusnesau eraill sy'n gofod cymryd lesau hir a thalu ardrethi
- Denu'r genhedlaeth iau gan eu hannog i fod yn entrepreneuriaid. Denu amrywiaeth ehangach o dwristiaid i'r ardal – cynyddu cyfleoedd busnes
- Llenwi siopau gwag
- Llenwi lleoedd gwag
- Gwneud i'r dref edrych yn well. Mwy o amrywiaeth i'r defnyddwyr
- Treialu cynnyrch – Gwnaeth The Warren fan bwyd stryd wib a bellach mae ganddyn nhw eu lle eu hunain
- Llai o siopau gwag. Newid cynnyrch a darpariaeth yn denu pobl i ail ymweld â'r dref
- Dim siopau gwag. Rhagor o gyfleoedd i fusnesau gychwyn.
- Lleihau nifer y siopau gwag, gallai ddenu pobl i mewn, gwella'r golwg
- I elusennau neu arddangosfeydd yn unig e.e. arddangosfeydd myfyrwyr
- Ceisio gwneud rhywbeth i wella'r trefi
- Does dim
- Llenwi siopau gwag. Cynyddu nifer yr ymwelwyr drwy amrywiaeth. Cefnogi mentrau a busnesau newydd.
- Amrywiaeth o bethau gwahanol i drefi eraill
- Llenwi siopau gwag blinedig
- Annog rhagor o bobl i ymweld.
- Denu rhagor o bobl a gwneud y siopau gwag yn ddefnyddiol.
- Cyflwyno rhagor o gynnyrch i bobl leol
- Lle yn edrych yn llawn a pheth da i ymwelwr.
- O ran estheteg, byddai'n llenwi'r siopau. Byddai hefyd yn denu pobl i mewn i weld rhywbeth gwahanol ac yn annog pobl i aros yn hwy
- Da i brofi busnes. Denu pobl newydd i mewn i'r dref hefyd.
- Denu rhagor o bobl i mewn. Gwell na siop wag.
- Cyflwyno egni.
- Denu rhagor o bobl i mewn.

- Gydag amrywiaeth dda o ddigwyddiadau wedi'u marchnata'n dda byddai'n dod â bywyd i'r dref ac yn creu diddordeb yn y dref a fyddai'n denu pobl i mewn.
- Denu ymwelwyr newydd, gobeithio. Mwy o amrywiaeth o gynnyrch
- Mae twristiaid a phobl leol fel ei gilydd yn hoffi'r ffaith bod Castellnewydd Emlyn yn unigryw. Er y gallai siopau gwib roi'r argraff, efallai, bod y dref yn dioddef, gallai gynyddu amrywiaeth stryd fawr sydd eisoes yn amrywiol ac mae'n siŵr eu bod yn well na siopau gwag.
- Amrywiaeth
- Denu cyfleusterau gwahanol i'r dref. Mae'r siopa yn Sanclêr yn gyfyngedig iawn
- Dim
- Denu pobl i mewn na fyddai'n dod yma fel arall, yn ogystal â chynnig newidiaeth a mwy o ddewis i'r bobl leol a ddaw yma'n rheolaidd.
- Y dref – siopau'n cau ac angen anogaeth yma nawr i hybu masnach.
- Amrywiaeth, denu pobl i mewn, ymwelwyr byrhoedlog sydd yn Sanclêr. Dim lle i brynu anrheg / cerdyn munud olaf, dim byd i gadw pobl yma.
- Does dim yn waeth na gweld siopau gwag felly byddai'n rhoi bywyd newydd i'r stryd fawr, byddai'n ffordd dda i gael syniad o fusnes mewn tref arall
- Prynu nwyddau lleol, llai o deithio i bobl
- Rhagor o ymwelwyr, gobeithio, a fyddai o fudd i bawb
- Mentrau/syniadau newydd
- Denu rhagor o bobl i mewn
- Denu rhagor o bobl i mewn i'r dref, efallai ychydig o ddiwylliant gydag arddangosfeydd celf ac ati. Hoffwn weld rhagor o siopau gwib sy'n arddangosfeydd/digwyddiad, gan fy mod i'n teimlo y byddent yn fwy priodol ar gyfer y tymor byr iawn na 'siopau' go iawn, ar wahân i rai tymhorol fel siop Nadolig efallai.
- Mwy o fywyd ar y stryd fawr
- Bod â busnesau sy'n bwydo i mewn i'r hyn sydd yma eisoes a chael cystadleuaeth uniongyrchol
- Denu rhagor o bobl i mewn. Mwy o ddewis i bobl aros yn y dref am hwy
- Denu rhagor o bobl i mewn i Hendy-gwyn ar Daf (o gael y siopau iawn) – anrhegion
- Llai o siopau gwag – mae pobl eisiau gweld rhywbeth newydd
- Byddai'n denu rhagor o bobl i mewn i greu amgylchedd mwy ffyniannus
- Gweler uchod. Mwy buddiol fyddai annog/cefnogi busnesau parhaol mewn ardaloedd gwledig.
- Gorau oll po fwyaf o siopau sydd. Bydd yn denu llawer yn rhagor o ymwelwyr i'r dref
- Bydd rhagor o siopau llawn yn gwneud i'r dref edrych yn well – gallai pawb elwa
- Denu rhagor o bobl i mewn
- Creu rhywfaint o ddiddordeb, gallai ddenu pobl i mewn. Llai o siopau gwag – pobl yn fwy tebygol o siopa
- Denu pobl i mewn
- Fel uchod, byddai dyblygu'r hyn sydd yma eisoes yn andwyol
- Rhagor o ymwelwyr a thwristiaid
- Arddangosfeydd celf, pethau eraill ond nid manwerthu
- Ei wneud yn dymhorol – rhywbeth i roi i ymwelwyr rywbeth i'w wneud
- Bydd busnesau presennol ar eu hennill, rhagor o bobl o gwmpas
- Ni fyddai cost i gychwyn arni ac yn darparu mwy o ddewis ar ddiwrnodau dethol – fel trefi marchnad – marchnad reolaidd.

- Gall trefi a phentrefi gwledig yn fuan iawn ddechrau edrych fel eu bod yn dadfeilio, wrth i siopau ac adeiladau eraill fel banciau gael eu gadael yn segur. Mae llawer o fusnesau na allai elwa o bresenoldeb siop barhaol gan fod yn rhaid iddynt dreulio amser i adeiladu 'stoc' yn gyntaf ac wedyn ei ailgyflenwi drwy greu, gwneud, tyfu. Gall fod yn anodd iawn i fusnesau fel hyn ganfod llwybr i'r farchnad. Mae dwyn pobl ynghyd sy'n rhannu diben a gweledigaeth cyffredin yn creu gwell ysbryd cymunedol drwy gydweithredu. Gallai sicrhau bod gweithiwr proffesiynol ym maes datblygu busnes yn gysylltiedig â'r prosiect, e.e. Ymddiriedolaeth y Tywysog a Prime Cymru, fod yn fuddiol o ran hyrwyddo hyfywedd hirdymor busnesau lleol.

Atodiad V

A oes gennych unrhyw bryderon ynglŷn â menter siopau gwib?

- Os yw siopau dros tro y tu allan i'r dref, byddant yn denu pobl allan o'r dref. Dod â chynnyrch i'r dref sydd yma eisoes.
- Oes – cystadleuaeth, ardrethi ffafriol a chymorth ariannol
- Na
- Oes – gallai gael ei chamddefnyddio a heb fod yn cydymffurfio â deddfwriaeth e.e. hylendid bwyd, iechyd a diogelwch. Ni wnaiff siopau gwib ddatrys y broblem, angen gostwng yr ardrethi, parcio rhatach – mae'n rhwystro pobl rhag galw i mewn i'r dref nawr. Casglu sbwriel yn rhatach neu am ddim.
- Dim pryderon. Wedi gweld sawl busnes yn datblygu yn fwy wrth ddechrau mewn siop sionc
- Siopau'n agor sydd yr un peth â siopau sydd eisoes yn y dref. Pobl yn cystadlu â'r un cynnyrch ac yn gallu amrywio ar gost yn unig. Agorwyd siop wib adeg y Nadolig a bu'n llwyddiant, ond does dim lle i siopau gwib sy'n gwerthu gadgets ac ati. Angen gweddu i nodweddion y dref. Hollt rhwng masnachwyr – angen siambr fasnach i drafod materion. Wedi siarad gyda chwsmeriaid o bant a gafodd drafferth gyda rhai siopau manwerthu na fyddai'n siarad gyda nhw am nad oeddynt yn medru'r Gymraeg – yn cael effaith negyddol ar y dref.
- Byddai'n rhaid iddynt fod yn drefnus a thrwsiadus iawn. Angen cydweddu â'r dref. Byddai'n annheg petai ardrethi a phrisiau yn llawer is i'r siopau gwib.
- Nac oes
- Pe na byddai'n faes gwastad yn ariannol – dim ffafriaeth
- Nac oes
- Angen marchnata'r fenter siopau gwib e.e. targedu twristiaid yn yr haf. Adegau penodol bob blwyddyn ar gyfer siopau gwib
- Mae busnes yn risg beth bynnag – mae angen i fusnesau fod yn dda. Angen syniad da. Gorfod ymrwymo – methu bod yn llugoer.
- Nac oes
- Dim – rwy'n ei groesawu
- Dibynnu ar y math o fusnes / masnach sy'n cael ei ddarparu a hyfywedd hirdymor
- Bydd yn ei gwneud yn anoddach i'r siopau eraill ddal ati
- Dim
- Diffyg cysondeb ar y stryd fawr. Effaith negyddol ar fusnesau presennol gan y byddai gan siopau gwib orbenion is gan alluogi iddynt werthu eu cynnyrch ar bris is na'r manwerthwyr presennol sy'n talu rhent a threth busnes llawn
- Oes – effaith negyddol ar fanwerthwyr presennol
- Effaith negyddol bosibl ar ein masnach fanwerthu ein hunain
- Mae angen gostwng y rhent i fanwerthwyr presennol. Mae angen i'r cyngor lanhau'r aleon a gwacau biniau olwynion. Byddai rhagor o feinciau ac ardaloedd eistedd yn cadw pobl yn y dref yn hwy. Mae landlordiaid yn hyblyg â rhent – dylai ardrethi fod yn hyblyg hefyd (yn arbennig os yw rhywun yn ei chael yn anodd). Mae angen rhagor o siopau annibynnol, gosod posterï dros siopau gwag presennol a thacluso adeiladau adfeiliedig.
- Nac oes
- Gorbenion is yn golygu bod mantais gan siopau sionc dros siopau parhaol - yn medru bod yn fwy cystadleuol gyda'r prisiau
- Y natur wib. Byddai'n well gen i weld busnesau parhaol. Cynhaliodd HMV siop wib yng Nghaerfyrddin adeg Nadolig a oedd yn wych, ac wedyn diflannodd!

- Nac oes, ni fyddai'n effeithio arnom ni
- Dim ond i'r graddau y mae cystadleuaeth fanwerthu yn y cwestiwn.
- Gwanhau elw manwerthwyr presennol gan achosi i ragor o siopau gau, rhaid helpu'r dref yn gyfan, nid darn ohoni yn unig
- Oes. Dwyn busnes oddi ar fusnesau presennol. Yn y tymor hir, rhagor o siopau gwag. Mwy o densiwn yn y dref.
- O'i rheoli yn y ffordd iawn a'i bod yn agored i bob oed sydd â syniad busnes go iawn. Cyflwyno syniadau ar ffurf Dragon's Den. Angen teimlad cadarnhaol.
- Dibynnu pa mor fyr dymor. Ddim eisiau i siopau gwag adlewyrchu'n wael ar y dre
- Y ffaith y byddent yn gystadleuaeth i fusnesau bach sy'n ei chael yn ddigon anodd fel ag y mae
- Cystadleuaeth. Byddai'n helpu pe gallai masnachwyr lleol gael dweud eu dweud ar addasrwydd siopau posib.
- Y math o gynnyrch a masnachwyr.
- Wedi'i rheoleiddio, dim siopau rhad, di-chwaeth, gan wneud yn siŵr eu bod o ansawdd uchel ac yn gweddu i'r dref.
- Dim
- Na. Ni all ond bod yn beth da.
- Cyhyd â'i fod yn addas i'r dref, does dim problem.
- Nac oes.
- Nac oes, cyhyd â bod yr amodau uchod yn berthnasol.
- Nac oes
- Mewn tref farchnad fach gall siopau gwib fod yn lletchwith petai rhywun yn dod i mewn â'r un cynnyrch. Byddai cydweithio yn hanfodol.
- Pryderon ynglŷn â chymryd busnes oddi ar eraill. Peidio ag ymrwymo i'r dref. Cael ardrethi rhatach na busnesau sy'n barhaol
- Nac oes.
- Nac oes
- Rhaid iddo fod yn brosiect ar y cyd
- Nac oes, cyhyd â bod y nwyddau/gwasanaethau o ansawdd da. Er y gall siopau prisiau gostyngol fod yn ddefnyddiol, nid ydych eisiau gormodedd ohonynt.
- Oes, mae angen busnesau hirdymor arnom i sefydlu eu gwasanaethau fel Arberth. Nid atebion cyflym yw'r ffordd ymlaen
- Nac oes – dibynnu ar natur y busnes – dim cystadleuaeth i'r hyn sydd yno'n barod
- Dim a fyddai'n achosi unrhyw broblemau inni. Byddai'n bwysig bod yn ofalus pa fath o siop sy'n mynd ble rhag niweidio busnesau presennol.
- Nac oes, byddwn yn ei annog, yn enwedig pobl ifanc i gychwyn arni
- Ddim yn benodol
- Cyhyd â'u bod wedi'u cefnogi'n iawn, byddai'n rhaid iddi fod yn barhaus – does dim pwynt cael siop wib am bythefnos ac wedyn bod y siop yn wag eto, rhaid ei bod yn rhaglen dreigl.
- Na, cyhyd ag y rhoddir y cymorth iawn iddynt
- Byddai angen iddi fod yn gynaliadwy – does dim yn digalonni mwy na bod yn llawn bywyd am ryw wythnos ac wedyn ei bod yn cau eto.
- Nac oes
- Nac oes – unrhyw beth i annog busnesau
- Cyhyd â'u bod nhw ddim yn gwerthu'r hyn rydyn ni'n gwerthu!

- Cyhyd â'i fod yn cael ei wneud yn ddeallus a sympathetig ac yn cael ei redeg gan fforwm busnes.
- Nac oes
- Nid yw Cyngor y Dref yn gwranddo
- Nac oes
- Nac oes
- Cyhyd ag nad ydynt yn cymryd "hufen" yr arian ar adegau prysur y flwyddyn (e.e. Nadolig) gan fod yn rhaid i fasnachwyr arferol oroesi drwy gydol y flwyddyn. Yr adegau da a drwg.
- Dim. Gobeithio y bydd Cyngor Sir Caerfyrddin a Chyngor y Dref yn gefnogol iawn
- Nac oes – byddai'n rhaid i bobl agor fel arfer?
- Cystadleuaeth i fusnesau presennol
- Nac oes
- Oes, fel uchod, efallai y byddai'n iawn i berchennog y siop wib, ond nid i unrhyw un arall
- Dim
- Oes – lladd busnesau eraill drwy werthu'r un cynnyrch
- Ddim yn benodol, gorau po fwyaf
- Dim ond ei fod yn cymryd cymaint o amser i'r cyhoedd yn gyfan newid / derbyn / croesawu rhai mentrau newydd
- Unwaith y bydd wedi'i greu, dylai fod yn gynaliadwy, hynny yw dylai safle arall gael ei wneud ar gael os na fydd y safle gwreiddiol ar gael mwyach.